



Tudalen 4

YSGOL BETHEL



Tudalen 9

YSGOL GWAUN GYNFI



Tudalen 16

CYLCH TI A FI LLANRUG

ECO'r Wyddfa

Rhif: 418

Chwefror 2014

Pris: 50c

Dysgu a Hybu'r Gymraeg... Patagonia a Llanberis.

Ganol mis Chwefror bydd Sioned Wyn Jones, yn wreiddiol o Lanberis, yn hedfan i Batagonia i ddechrau cyfnod o ddeng mis fel athrawes yn Ysgol yr Hendre, Trelew. Bydd yn dychwelyd i Gymru mewn pryd i ddathlu'r Nadolig yma.

Cafodd Sioned, sy'n ferch i Gwynfor a Jane Jones, ei haddysg yn Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail, cyn graddio mewn Cymraeg ac Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn dilyn cwrs addysg cynradd ym Mhrifysgol Bangor, cafodd swydd yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail, Rhondda Cynon Taf, ac y mae ar ei phedwaredd blwyddyn o ddysgu yno. Mae'n byw yn Nhreganna, Caerdydd. Mae'n edrych ymlaen yn arw am gael mynd i Batagonia, a chael parhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n hynod ffodus hefyd mai secondiad yw hon o'i swydd bresennol, a bydd yn dychwelyd i Donyrefail ddechrau Ionawr y flwyddyn nesaf.

Gobeithiwn y bydd Sioned yn anfon ambell bwt o adroddiad am ei gyrfa ym Mhatagonia yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Ers mis Medi y llynedd mae Gwenllian Mair Williams wedi ei phenodi yn Swyddog Datblygu Iaith gyda Hunaniaith, Uned Hyrwyddo Iaith Cyngor Gwynedd. Ei thasg arbennig yw edrych ar sefyllfa'r iaith yn Ward Llanberis. Mae canran y siaradwyr Cymraeg yn Llanberis wedi gostwng o 80% i 74% rhwng 2001 a 2011. Gwaith Gwenllian fydd ceisio sefydlodi sefyllfa'r iaith yn yr ardal a sicrhau bod yna ddigon o gyfleoedd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.



Sioned



Gwenllian

Dros y misoedd diwethaf bu'n gweithio ar ddatblygu cysylltiadau yn yr ardal a cheisio gweld ble roedd bylchau mewn gwasanaethau a chyfleoedd newydd i hybu'r Gymraeg. Erbyn hyn mae calendr o ddigwyddiadau wedi eu trefnu i annog gwahanol aelodau o'r gymuned i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg. Mae cyfres o weithgareddau wedi eu trefnu trwy gydweithio â'r Amgueddfa Lechi, Swyddog Twf Arfon a'r Llyfrgell leol. Sefydlwyd sesiynnau sgwrsio anffurfiol yn yr Heights ar nosweithiau Mercher, a'r gobaith yw sefydlu sesiynnau 'Paned a Sgwrs' yng nghaffi'r Amgueddfa. Dros yr wythnosau nesaf bydd yn cydweithio gyda'r Clwb ieuencid a Phwyllgor y Ganolfan ar brosiect celf. (mwy ar dudalen 3).

Athrawes Gymraeg o Lanberis yn hedfan i ben draw'r byd i gynnal y dreftadaeth Gymraeg yn y Wladfa, a Chyngor Gwynedd yn anfon Swyddog Iaith i Lanberis i gynnal a gwarchod y Gymraeg wrth droed yr Wyddfa. Rhyfedd o fydd!

Digideiddio'r "Eco".

Mae'r broses o sganio holl ôl-rifynnau'r "Eco" - dros bedwar cant ohonynt - yn mynd rhagddo, a hynny fel y bydd y cyfan ar gael erbyn i wefan y papur gael ei sefydlu yn gynnar eleni (gweler Gair gan y Golygydd ar dudalen 2).

Y ferch sy'n gyfrifol am wneud y gwaith yw Hannah Becket o Lanberis, mam ifanc i Cora. Mae wedi cychwyn ar y gwaith ers diwedd Ionawr, ac yn gweithio ar gyfrifiadur a sganiwr yr "Eco" yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug. Yno hefyd mae holl ôl-rifynnau'r papur yn cael eu cadw'n ddiogel.

Y gobaith yw y bydd yr holl rifynnau wedi eu sganio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Mae siawns hefyd, o ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol arbennig, y gellir defnyddio'r "Eco" digidol i chwilio am unrhyw wybodaeth a ymddangosodd yn y papur ers y cychwyn yn 1976. Hynny yw, mae'r rhaglen arbennig yn gweithredu fel mynegai i holl rifynnau'r papur. Mwy am y datblygiad hwn maes o law.

Dymunwn yn dda i Hannah gyda'r gwaith sydd bellach yn ymestyn yn ôl i gyfnod cyn ei geni.



ECO'r Wyddfa

RHIF 418
Chwefror 2014

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn

Mawrth

Ebrill

Copi i law

Chwefror 16

Mawrth 16

Bwndelu

Chwefror 27

Mawrth 27

Ble

Llanrug

Cwm y Glo

LLYTHYRAU

Pontio – a chofio Theatr Gwynedd.

Annwyl ffrindiau,

Pontio! Dyna enw canolfan newydd y celfyddydau ac arloesi ym Mangor, sy'n agor ei drysau eleni. Fe fydd Pontio yn gartref i theatr ganolog ei maint, theatr stiwdio, sinema, bar caffi, a llawer mwy. Yn y gorffennol, mae'n siŵr eich bod chi wedi ymweld â Theatr Gwynedd, ac yn dal i gofio rhai o'r cynrychiadau gwyd fu ar lwyfan y sefydliad hwnnw - sefydliad a gyfrannodd mor sylweddol at fywyd diwylliannol Cymru.

Wel, mae Pontio yn codi fel ffenics o seiliau y theatr honno, a'r bwriad ydi cynnwys eich atgofion chi o'r nosweithiau y daru chi eu mwynhau yn Theatr Gwynedd, mewn arddangosfa weledol a lleisiol, i gyd-fynd ag agoriad Pontio.

Os oes ganddoch chi unrhyw atgofion am Theatr Gwynedd yr hoffech chi eu rhannu, cysylltwch efo mi drwy ebost, neu fe allaf drefnu i alw draw i'ch gweld a chael sgwrs efo chi - dros baned. Llefrith - ond dim siwgr!

Dyma fy nghyfeiriad ebost hywel.gwynfryn@bbc.co.uk.

Beth am gyfrannu i ddyfodol Pontio- drwy rannu eich atgofion o'r gorffennol yn Theatr Gwynedd.

Cofion cynnes,
Hywel Gwynfryn.

Gair gan y Golygydd.

Er gwaethaf yr apêl yn y rhifyn diwethaf i beidio anfon lluniau Nadoligaidd i'w cynnwys yn y rhifyn hwn, (un Chwefror, rhag ofn nad oedd llawer yn sylweddoli hynny); fe ddaeth nifer sylweddol o luniau Sion Corn. Yn wir, byddai wedi bod yn bosib llenwi dwy dudalen gyfan o'r rhifyn hwn efo dim ond lluniau'r hen greadur caredig hwnnw.

Ond os yw'n rhy hwyr i gynnwys lluniau Nadoligaidd chwe wythnos a mwy wedi'r digwyddiad, oes synnwyr derbyn rhai eraill yn dyddio o Dachwedd a hyd yn oed Hydref! Pa mor hen y gall 'newyddion' fod cyn penderfynu eu cynnwys yng ngholofn Chwilota?

Oes prawfmeddygol fod 'Penmaenmawr' yn dilyn dathliadau'r Nadolig a'r Calan yn peri anghofrwydd am fis o amser? Dim ond gofyn.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae'r rhifyn hwn, yn ôl yr addewid, yn cynnwys wyth o dudalennau lliw. Gobeithio y bydd yn sbardun i unigolion, grwpiau a chymdeithasau anfon mwy o luniau o ddigwyddiadau yn y gwahanol bentrefi.

Mae pwyllgor yr "Eco" yn parhau gyda trefniadau sefydlu gwefan i'r papur, a gobeithio y daw newyddion am hynny yn rhifyn Mawrth.

LLUNIAU LLEOL.

Nos Fercher, 19eg o Chwefror am 7.30 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.

Noson yng nghwmni Gareth Roberts yn dangos hen luniau bro'r "Eco".

• Cyfle i gyfrannu at y stôr o wybodaeth sydd eisoes ar gadw am ddigwyddiadau a phobl genhedlaeth a mwy yn ôl.

• Cyfle i fwynhau gweld eich stryd, eich pentref neu eich ardal fel yr oedd ers talwm.

Dim tâl mynediad, ond gwneir casgliad tuag at gost llogi'r ystafell.

RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru**

£40: Er cof am y ddiweddar Verna Jones, Meillionen, Penllyn

£20: gan Dafydd a Helen Owen, Penisarwaun, er cof am ein diweddar annwyl ferch, Sharon Wyn Woolley (ganedig Owen), a fuasai yn 45 mlwydd oed ar Chwefror 21. Dal mewn hiraeth, Dad a Mam.

£10: Brenda a Ken Richardson Penisarwaun; Liz a John Evans, Penparc, Bethel; Margaret Roberts, 8 Porth Gogledd, Deiniolen; Elwyn ac Hefina Jones, Blaen Ddôl, Llanberis; Mrs Annie Daniel Hughes, gynt o Cae Hywel, Penisarwaun; Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni, Waunfawr; Mr a Mrs Gwilym Williams, Fferm Bod Hyfryd, Waunfawr.

£5: Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel; Cyfeillion Mrs Yvonne Hind Lovell (gynt o 14 Dôl Eilian, Llanberis); Beti Roberts, Rhydfadog, Deiniolen.

Ymddiheuriad. Yn rhifyn y Nadolig, cofnodwyd rhodd Teulu Cefn Coch fel £10. Dylasai fod wedi ei chofnodi fel £20. Gyda diolch am eich cefnogaeth.

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï ar nos Fawrth, 18ed Chwefror, am 7.30 o'r gloch yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon. Y siaradwr gwadd fydd Dylan Iorwerth a'i destun fydd Cerddi Cofio. Croeso cynnes i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Gwynedd.

Y criw jiwdo.



Clwb Jiwdo Segontium Cynhaliwyd Noson Gwobrwyo Clwb Jiwdo Segontium yng Nghanolfan Capel Caeathro yn ystod mis Rhagfyr 2013, a chafodd 20 o wobrau eu cyflwyno gan ŵr gwadd y noson, Mr Elwyn Jones, Rheolwr Datblygu Chwaraeon Cyngor Gwynedd.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch am bob cefnogaeth gafwyd yn ystod y tymor, yn arbennig cymorth Richard Jones, y ffotograffydd lleol, sydd yn gefnogol ers rhai blynedd bellach.

Paratowyd gwledd ar ddiwedd y noson gan rhieni y plant a bu y noson yn hynod o lwyddiannus.

Sefydlwyd y Clwb Jiwdo 9 mlynedd yn ôl, ar gyfer plant rhwng 7 a 14 oed ac ar hyn o bryd mae 20 o aelodau.

Os hoffech fwy o fanylion neu wybodaeth am wersi, mae croeso i chi gysylltu gyda Hannah Hughes hannahjudo@hotmail.com neu ffonio 07816361236

Gwasanaeth Nadolig Un o'r digwyddiadau mwyaf bendithiol gynhaliwyd yng Nghaeathro dros y Nadolig oedd y gwasanaeth ar nos Sul, Rhagfyr 22ain. Dyma wledd o addoliad gyda darlenniadau, barddoniaeth, unawdau, deuawd a phedwarawd, wedi ei threfnu gan Marian Hughes, Tŷ Mawr, ac o dan arweiniad y gweinidog, Y Parch Marcus Robinson. Cafwyd cyfle wedyn i gymdeithasu dros baned a mins pei. Diolch i'r holl blant, pobl ifainc ac oedolion oedd wedi cymeryd rhan.

Gwasanaethau y Capel

Chwefror 2ail am 2 yprynhawn: Y Parch Marcus Robinson a gweinyddir y Cymun.

Chwefror 19eg am 2 y prynhawn: Y Parch Elwyn Richards.

Tynfa bonws y Nadolig Yn ôl yr arfer bellach rhoddwyd deg gwobr ychwanegol dros y Nadolig, yn ogystal â'r tynfa arferol. Dyma'r enillwyr: (71) Clive James, Hafan; (58) Sandra Roberts, 5 Bryn Gof; (63) Einir Roberts, 3 Erw Wen; (53) David Jones, 1 Bryn Gof; (8) M Francis Bodwyn; (86) Laura Griffiths, Rhanna, Stad Glandŵr, (50) Tony ac Eirian, Annedd; (44) Steve a

Ceri, 9 Bryn Gof; (90) Vernon ac Yvonne Jones, Gilfach; (93) Rosie Lloyd, 2 Rhos Bach.

Tynfa Misol Dyma enillwyr mis Ionawr: £40 (22): L. Williams, Refail; £25 (49): L. O'Grady, Tyddyn Whisgyn; £15 (104): Alwyn a Nia Jones, Y Dderwen; £5 (6): Viv Morgan, Tyddyn Uchaf. Diolch am barhad y gefnogaeth i'r Tynfa.

Clwb Merched Roedd pawb wedi mwynhau y Cinio Nadolig yn Teras, Coleg y Brifysgol Bangor. Cawn gyfle y mis yma i ystywtho gyda noson o Yoga yng nghwmni Wendy Ostler o Fethel, ar nos Iau, Ionawr 23ain, am 8o'r gloch yn y Ganolfan, sef y pedwerydd dydd Iau yn y mis. Croeso i unrhyw un ymuno.

Profedigaeth Cydymdeimlwn â Mrs Kathy Jones, Cefn Gwern, sydd wedi colli ei mam, Mrs Sayer o Gaernarfon yn ddiweddar.


Damwain Dymunwn wellhad buan i Leslie, 8 Erw Wen, sydd wedi disgyn oddi ar ystolion yn ystod y stormydd diweddar.

Cofiwn hefyd am Selwyn Jones, Erw Wen a Tony Griffiths, Annedd, y ddau wedi cael triniaethau yn yr ysbyty. Brysiwch wella.

Hybu'r Gymraeg yn Llanberis

parhad o'r dudalen flaen.

Rhywfaint o gynnyrch y sesiynau celf a chrefft a gynhaliwyd yn y Llyfrgell fis Rhagfyr a Ionawr



Mae digwyddiadau mis Chwefror i'w gweld isod, ond dwi hefyd yn awyddus i glywed am unrhyw syniadau neu gyfleoedd cydweithio newydd, ac mae croeso i unrhyw un gysylltu â mi am sgwrs neu am fwy o wybodaeth.

Gwenllianmairwilliams@gwynedd.gov.uk 01286 679389

Digwyddiadau Chwefror

Teithiau Cerdded : Dan arweiniad amryddawn Gareth Roberts, Menter Fachwen, sydd wedi cynllunio cyfres o bedair taith i mi, fydd yn edrych ar wahanol agweddau ar hanes ac amgylchedd Llanberis. Ffordd dda o ddod i adnabod eich milltir sgwâr.

Chwefror 2il, Pnawn Sul: Taith dan 2 filltir am chwedlau ac ysbrydion yr ardal. Delfrydol ar gyfer teuluoedd. Cyfarfod yn y Mynydd Gwefru, cychwyn am 1.30pm.

9fed o Chwefror, Pnawn Sul: Cylchdaith tua 4/5 milltir gyda map newydd Llyn Padarn. Delfrydol ar gyfer unrhyw un a did-dordeb yn hanes diwydiannol yr ardal. Cyfarfod yn y Mynydd Gwefru, cychwyn am 10.30am. Dewch a picnic efo chi.

3ydd a 4ydd taith ar yr 2il a 9fed o Fawrth. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Sesiynau teuluol:

Chwefror 20fed Pnawn Iau, 3:00-5:00yp : Celf a Chrefft yn y Llyfrgell

Chwefror 18fed Pnawn Mawrth, 2:00-3:00 yp : Sesiwn Iaith a Chwarae, Llyfrgell Llanberis

Hanner Tymor Chwefror : Diwrnod Hwyl i'r Teulu (manyllion i ddilyn)

Mawrth 1af Dydd Sadwrn : Helfa Drysor, Amgueddfa Lechi

**SWIGOD
A
SEBON**

**Gwasanaeth
Golchi
a Smwddio
Altro • Ailwnio**

**54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088**

Bosch Service

Car Service

www.a-v-w.co.uk

01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD

SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO

ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN

CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW BOSCH Car Service



Gweithgareddau Ysgol Bethel



Y Meithrin Mae'r Nadolig yn Ysgol Bethel wastad yn gyfnod prysur iawn a llawn bwrlwm! Cafwyd Sioe Nadolig wych gan y Meithrin ar Rhagfyr 10fed. Diolch i Mrs Gwenan Jones am ei gwaith caled efo'r plant. Diolch iddi am ei gwaith caled efo'r Meithrin yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Gossett. Mae Mrs Gossett, bellach wedi dychwelyd i'r ysgol. Croeso cynnes yn ôl iddi.

Y Sgrin fawr Bu'r ysgol wrthi'n recordio carolau ar gyfer y sgrin fawr ar y maes yng Nghaernarfon. Gobeithio eich bod wedi gweld plant yr Adran Iau yn canu "Haleliwia" a'r plant Babanod yn canu "Ar fore dydd Nadolig".

Pantomeim Cafodd yr Adran Iau fynd i'r pantomeim yn Llandudno ac fe gafodd plant y Cyfnod Sylfaen fynd i weld pantomeim yn y Galeri.

Sioe Nadolig Cafodd y sioe Nadolig "Llyfr y Jwngl" ei chanmol yn arw. Llauer o ddiolch i'r rhieni am fynd i gymaint o drafferth efo gwisgoedd y plant. Roedd pob un ohonynt werth eu gweld.

Carolau yn Morrisons Braf oedd gweld nifer o'r plant yn dod i gefnogi'r ysgol i ganu carolau yn Morrisons - er gwaethaf storm o wynt a glaw! Casglwyd £125.00.

Ymwelydd Pwysig Daeth ymwelydd pwysig iawn i weld y plant fel syrpreis yn ystod amser chwarae ar y Dydd Gwener olaf - Siôn Corn! Cyrhaeddodd Siôn Corn ar ei feic modur lliwgar ar fuarth yr ysgol. Roedd y plant i gyd wedi eu syfrdanu!

Cofiwch fynd ar wefan yr ysgol i weld mwy o luniau!

Diolch Dymuna Gareth, Carol, Iolo a Huw, 8 Stad y Rhos, ddiolch yn ddiffuant iawn i deulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod y cyfnod y bu Iolo yn yr ysbyty, ac yn dilyn wedi iddo ddod adref. Cafwyd llu o alwadau, cardiau, anrhegion a negeseuon a dymuniadau da. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth i ni fel teulu.

Diolch Dymuna Gwion John a Hari Ifans ddiolch yn fawr iawn am y rhoddion hael a gawsant dros y Nadolig gan drigolion eu rownd papur newydd.

Merched y Wawr Bethel Cynhaliwyd cyfarfod Ionawr o'r gangen yn festri Capel Cysegr nos Fercher, Ionawr 8fed. Croesawodd Jen, y llywydd, nifer dda ddaeth i'r festri er gwaethaf y glaw. Roeddem yn falch o glywed fod Elin, merch fach Huw mab Alys, wedi gwella wedi cyfnod yn yr ysbyty. Roeddem yn falch iawn fod Eva a Gwyneth wedi gwella ac yn ôl yn y gangen.

Atgoffwyd yr aelodau am y noson Bowllo Deg nos Wener, 17 Ionawr, am 6.30. Bethel fydd yn rhoi raffl ar y noson, penderfynwyd prynu taleb o Fron Goch. Darllenwyd y gohebiaeth ddaeth o Aberystwyth a chynigiwyd i'r aelodau roi enw i fynd i ginio'r Llywydd yng ngwesty'r Celt Caernarfon ar Mawrth 8fed. Rhowch eich enw i Anne neu Gwyneth mor fuan â phosibl.

Croesawyd Wyn a Deilwen Davies, Llanrwst, yn gynnes gan Jen a chafwyd sgwrs a thrafodaeth ddiddorol iawn

ganddynt am lwyau caru. Yn ystod 60au'r ganrif ddiwethaf cafwyd adfywiad yn y diddordeb am y llwyau caru. Un o'r rhai wnaeth waith i hybu'r diddordeb oedd Gwynhaf Breese yn San Ffagan, a dechreuodd Paul Curtis wneud llwyau caru. Yn draddodiadol masarn oedd y pren, pren gwydn iawn oedd heb flas arno felly ddim yn gadael blas ar y bwyd o'i ddefnyddio. Arferid gwneud llwyau i'w defnyddio yn y cartref i ffitio'r llaw – trwy fesur rhychwant y llaw. Mae gan Wyn lyfryn efo lluniau llwyau caru sy'n mynd 'nôl 200 mlynedd ynddo. Ceir patrymau ar lwyau, calon, modrwy, diamwnt, symbolau arwydd yr enaid. Nid oes sicrwydd am darddiad y llwyau ac mae nifer o goelion ond credai Wyn fod llawer wedi eu gwneud i fyny.

Wedi ymddeol dechreuodd Wyn ddilyn patrymau o'r hen lwyau ac roedd y casgliad cywrain o lwyau caru yn fendigedig, a'i frwdfrydedd wrth sôn amdanynt yn bleser. Deilwen sy'n cynllunio'r patrymau i'r llwyau newydd a phenderfynu a yw'r llwyau wedi cyrraedd safon dderbyniol. Erbyn heddiw defnyddir gwahanol fathau o bren i wneud y llwyau a gellir roi enw, patrwm i siwtio'r cwsmer ar gyfer priodas, pen-blwydd neu achlysur arbennig arnynt.

Diolchodd Rita iddynt a rhoi syrpreis mawr i Deilwen gan fod y ddwy yn ffrindiau da pan oeddynt yn blant ac heb weld ei gilydd ers dros hanner can mlynedd.

Diolch i Eva, Gwyneth J a

Falma i wnaeth y baned, a llongyfarchiadau i Gwyneth am ennill y raffl.

Cofiwch ddod a £15 cinio Gŵyl Dewi fydd yn y Caban, Brynrefail, Sed Mawrth – dalier sylw nos Fercher cyntaf y mis. Gemma Jones fydd yn rhoi triniaeth harddwch yn y cyfarfod nesaf, nos Fercher, Chwefror 12fed, am 7.30. Gobeithio gall y pwyllgor gyfarfod am 6.30 yn y festri cyn i'r cyfarfod ddechrau i drafod un neu ddau o bethau.

Cronfa Mynwent Eglwys Llanddeiniolen

Carem ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniad tuag at gostau cynnal a chadw Mynwent St Deiniol, Llanddeiniolen, am y flwyddyn 2013:

£100: Mrs C.A. Lowe, Henryd, Conwy; £100: Gareth Jones a Dylan Edwards, 3 Bro Deiniol, Deiniolen; £60: Di-enw; £50: Pricilla Ann Williams, Cilgwyn; £50: Mr R.A. Jones, Rhandir Mwyn, Bangor; £50: Mrs Enid Griffith, Bangor; £50: Mr R.I. Thomas, Buarthau, Llanrug; £50: Mr Gwynedd Hughes, Southport; £40: Mrs Meira Griffith, Penisarwaun; £30: Margaret, Jennifer a Valerie, Llys Menai; £25: Elwyn a Gwyneth Jones, Llys Gwynt, Seion; £25: Alan a Brenda Jones, Llanwnda; £20: John

ac Elizabeth Evans, Pen Parc; £20: Mrs Edith Jones, Cae Mawr, Trefor; £20: Mr Stanley Roberts, Hafod Wen, Llanrug; £20: Mrs Ivy Wright, 2 Tan y Buarth; £20: Mr a Mrs J.M. Griffith, Llwyn Eithin; £20: Mr a Mrs Clifford Thomas, Y Felinheli; £20: Mrs Alice Jones, 15 Bro Rhos; £20: Mr a Mrs H.P. Hughes, 11 Stad Eryri; £20: Mr a Mrs Brian Sharpe, Ael y Bryn; £10: Mrs Eiriona Williams, 7 Bro Rhos; £10: Mrs Dilys Parry, Rhiwlas; £10: Mr a Mrs Danny Humphries, Is Helen; £10: Mr a Mrs Ieuan Williams, Llain yr Ardd; £10: Miss Ceri Williams, 23 Cae Corn Hir, Caernarfon; £10: Mrs Ann Hughes, Y Bwthyn, Llanrug; £10: Mrs Phyllis Jones, 2 Hafon Lon, Rhiwlas; £10: Mr a Mrs O.P. Hughes, Llanbedrgoch; £10: Mrs Margaret Williams, Deiniolen.

Mae costau cynnal a chadw Mynwent y Plwyf yn codi yn flynyddol ac rydym yn gwbl ddbynnol ar gyfraniadau fel yr uchod.

Derbynnir yn ddiolchgar roddion tuag at y gost trwy law y Trysorydd: Mr Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel, Caernarfon LL55 3AA,. Sicciau yn daladwy i 'Cronfa Mynwent Llanddeiniolen' os gwelwch yn dda.

SWYDDFA POST BETHEL

Ffôn (01248) 670261

COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.
Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI, A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

LLUN-SADWRN
5.30am-7.30pm
DYDD SUL
5.30am-3pm

PROBLEM GYDACH CYFRIFIADUR?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a GWELLA eich CYFRIFIADURON- CYSYLLTWCH A

GOMER ROBERTS

Cymorth a hyfforthiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur

(01286) 870462 Symudol-07962 712368

BWYD ANIFEILIAID

BOCM • PAULS

GWAIR GWELLT a HAYLAGE

ROBERTS

HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF

Ffôn 07748692100 • (01286) 660254

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

MODURDY'R WYDDFA

Snowdon Garage

LLANBERIS

M.O.T GWASANAETH CYNNAL A CHADW

(01286) 870225



Pat Jones, Cadeirydd Gwynedd/Caernarfon yn derbyn y batwn gan Audrey Jones Cadeirydd Sefydliad y Merched Ynys Mon.

Sefydliad y Merched Cafwyd cyfarfod o'r gangen leol nos Iau, Ionawr 15fed, pryd y croesawyd Janice Jones, Tyddyn Perthi, Penisarwaun, i sôn am ei phrofiad o gadw gwenyn. Cafwyd noson ddifyr dros ben a diolchwyd yn gynnes iawn i Janice am ei chyflwyniad brwdfrydig.

Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol yn Ysgol Brynrefail am 2 o'r gloch bnawn Sadwrn, Chwefror 1af, a'r gŵr gwadd fydd Mr Steve Long, Brynrefail.

Ar Chwefror 20fed, bydd Arddangosfa Coginio dan ofal Aled Davies, prif gogydd Y Caban, Brynrefail. Hefyd yn y Caban ar Chwefror 24ain am 7 o'r gloch cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Grŵp Eryri a'r gŵr gwadd fydd Mr Gareth Roberts.

Eleni mae gweithgareddau wedi dechrau cael eu trefnu ymhlith aelodau Sefydliad y Merched i ddathlu canmlwyddiant y Sefydliad

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfa Bnawn Sul, Rhagfyr 15fed Hon oedd oedfa'r aelodau i ddathlu'r Nadolig a daeth cynulliad da ynghyd ond neilltuwyd dechrau'r gwasanaeth i goffau un oedd yn annwyl gennym, sef un o'n haelodau ffyddlonaf, y ddiweddar Verna Jones, Meillionen, a fu farw ar Ragfyr 11eg yn 86 mlwydd oed. Trist oedd gan lywydd y mis, Gwyn Hefin Jones, gofio yn yr oedfa arbennig hon am ei chyfraniad blynnyddol i'r gwasanaeth hwna'i gallu i gyfrannu a chynorthwyo ar unrhyw achlysur. Cyfeiriodd

ati fel cymeriad tawel a phreifat, urddasol, pendant ac aeddfed ei barn a'i sgwrs ddeallus yn adlewyrchu ei chefnidir academaidd a gwyddonol. Yn dilyn ysgoloriaeth derbyniodd ei haddysg uwchradd yn Ysgol y Genethod ym Mangor a mynd ymlaen i ennill gradd anrhydedd yn y Gwyddorau Naturiol a dilyn hynny gyda Gradd Meistr mewn Gwyddoniaeth. Treuliodd ei gyrfa yn gweithio ym maes ymchwil mewn sefydliadau gwyddorau naturiol a chadwraeth ym Mangor. Roedd yr angladd yn hollol breifat i'r teulu ym Meillionen ac yna ym mynwent Llanrug.



Grŵp Eryri o flaen Castell Caernarfon yn cyflwyno'r batwn i'r Maer, Y Cynghorydd Roy Owen.

a gychwynnodd yn Llanfairpwllgwyngyll yn 1915. Trefnir siwrnai batwn i ddathlu'r achlysur yn cychwyn o Lanfairpwll ar ei thaith i Ffederasiynau yng Nghymru a Lloegr, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel a chyrraedd Neuadd Albert, Llundain, ar gyfer y Gynhadledd Flynyddol y flwyddyn nesaf. Mae'r batwn eisoes wedi ei drosglwyddo o Ffederasiwn Ynys Môn i Ffederasiwn Gwynedd/Caernarfon i gychwyn ar ei daith. Hwn, wrth gwrs, oedd y man delfrydol i gychwyn a'r mudiad wedi ei sefydlu yn Llanfairpwll. Cyflwynwyd y batwn i bedwar grŵp o fewn Ffederasiwn Gwynedd/Caernarfon ar bedair safle – Castell Conwy, Caernarfon, a Chricieth a'r Marina, Pwllheli, cyn ei drosglwyddo i Ffederasiwn Gwynedd/ Meirionnydd ar Y Cob ym Mhorthmadog.

Gwasanaethwyd gan y Tad Deiniol (perthynas i'r teulu) a chynrychiolwyd yr eglwys gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones a Lowri Roberts Williams. Cydymdeimlwn yn ddwys â Dilys a Ruth a'r teulu oll yn eu

profedigaeth.

Diolch Dymuna Dilys a Ruth ddiolch o galon i bawb am y geiriau o gysur a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth lem o golli eu mam, Verna Jones, Meillionen, Penllyn.

Oedfaon Chwefror

2 am 5.30 Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
9 am 2 Dr Tudor Ellis, Y Groeslon
16 am 5.30 Parch W R Williams, Y Felinheli
23 am 5.30 Parch Geraint Roberts, Porthaethwy

Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd Eleni bydd Eglwys Brynrefail yn cael cyfle i wahodd chwiorydd Eglwysi Llanrug i ymuno yn y Dydd Gweddi Blynnyddol. Cynhelir yr oedfa bnawn Gwener, Mawrth 7fed, yn yr Ystafell Gynhadledd a bydd lluniaeth ysgafn wedi ei drefnu ar y terfyn ym Mwyty Caban.



J. M. JONES

a'i FEIBION

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:

i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â

Mantell Gwynedd



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Cyngerdd Mynydd Gwefru Yn dilyn y cyngerdd ardderchog a gynhaliwyd gan Fand Deiniolen, Côr Dyffryn Peris ac Artistiaid Unigol yn y Mynydd Gwefru, Llanberis, ar y 15fed o Ragfyr, mae'r elusen "Hospis yn y Cartref" wedi derbyn rhodd o £300 a gasglwyd yn ystod y cyngerdd.

Llongyfarchiadau i Mrs Yvonne Hind Lovell, Cartref Sant Tysilio, Ynys Môn, (gynt o 14 Dôl Eilian Llanberis) ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Yr oedd Mrs Lovell yn naw deg oed ar Ionawr 12fed eleni.

Cymdeithas Undebol Cynhaliwyd cyfarfod Carolau a Darlleniadau yn Festri Capel Coch nos Fawrth, Rhagfyr y 10fed, dan arweiniad Y Parchedig John Pritchard.

Cymerwyd rhan gan Parti Ffrindiau Bytholwyrdd, arweinydd Mrs Mattie Hughes, gyda Mrs Bethan Holding yn cyfeilio i'r Parti ac i'r Carolau Cynulleidfaoel. Roedd y darlleniadau yng ngofal rhai o aelodau'r Parti.

Cafwyd lluniaeth ysgafn ar y diwedd. Gwnaed casgliad at

"Apêl Trychineb y Philipinas".

Diolch i bawb a gymerodd ran, ym mhob dull a modd, i wneud y noson yn llwyddiannus.

Nos Fawrth, Ionawr 14eg am 7yh, cafwyd noson ardderchog, a dysgom lawer, yng nghwmni y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda, a fu'n sôn am Dywysogion Gwynedd a Chymru ac fel y bu i Edward Iafroi terfyn ar linach Frenhinol Gwynedd trwy ladd Llywelyn ap Griffith a'i frawd, Dafydd, a chaethiwo eu plant am oes.

Diolch iddo am noson ddiddorol iawn.

Llywyddwyd y noson gan Y Parchedig John Pritchard a rhoddwyd y diolchiadau gan Miss Marian Davies.

Nos Fawrth, Chwefror 11eg, am 7yh yn Festri Capel Coch, cawn gwmni difyr Mr John H. Hughes, Llanberis. Testun ei sgwrs fydd "DIRGELWCH".

Llongyfarchiadau Mae Thelma, Gwyn a'r plant o Walchmai, Ynys Môn, yn dymuno Pen-blwydd Priodas Arian hapus i Hefina ac Elwyn, Blaen Ddôl, Llanberis, ar y 4ydd o Chwefror.

Dechrau'r Flwyddyn Ar ddechrau blwyddyn 2014 fe garwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr yr Eco. Cofiw'n am y rhai na fu blwyddyn 2013 yn rhy garedig iddynt gan ddymuno blwyddyn llawer gwell eleni. Ar ddechrau blwyddyn fel hyn yr ydym yn meddwl am y rhai sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi oherwydd gwahanol resymau ac yn cartrefu mewn cartrefi preswyl. Anfonwn ein cofion fel ardal at Mrs Alice Thomas a Mrs Alice Griffith, a gobeithio iddynt fwynhau y gwyliau cystal ag oedd yn bosibl.

Capel Cefn y Waun Cafwyd gwasanaeth Nadolig da iawn gan y plant, pawb yn gwneud ei ran yn dda iawn ac yn mwynhau. Catrin Llywelyn hithau yn gwneud ei gwaith wrth y piano yn dda iawn. Da iawn chi i gyd a daliwch ati.

Ar yr 22 o Ragfyr, cawsom y fraint fawr o weld Mr John H. Morris, Rhiwen, yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Mae wedi bod yn aelod yn Eglwys Cefn y Waun ar hyd ei oes. Braff oedd ei weld yn mwynhau ei ddiwrnod ac eisiau sgwrs hefo pawb. Y prif bwnc oedd y chwarel. Y mae ei gof yn arbennig o dda a'r llyfr emynau ar flaen ei fyseidd. Os ydych yn teimlo fel galw i'w weld tydi awr yn da i ddim, mae angen llawer mwy o amser. Does dim pall ar ei siarad ac wrth ei fodd yn cellwair a thynnu coes, gyda'i wên ddireidus. Er fod Gwyn, y mab, yn hynod o garedig wrtho, mae wrth ei fodd yn glanhau bron bob dydd ddwy grât ac yn codi glo a chadw y tŷ yn lân ac yn daclus iawn.

Ar ran y gweinidog, y Parch John Pritchard, a swyddogion ac aelodau Eglwys Cefn y Waun, a hefyd bawb yn ardal y chwareli, hoffwn eich llongyfarch ar ddathlu y pen-blwydd arbennig yma a dymuno llawer blwyddyn o iechyd a hapusrwydd ichi a daliwch ati. Rwyf yn sicr y bydd gennych lawer i'w ddweud wrthyf pan fyddaf yn galw cyn diwedd y mis. Hwyl fawr a chofion annwyl iawn hyd nes y galwaf.

Y Tywydd Mae y tywydd wedi bod yn wyllt iawn yn ystod y mis yma. Gwynt cryf iawn a chryn dipyn o law. Mae wedi creu dipyn o ddifrod i adeiladau ac y mae llawer i'w gweld yn brysur yn trwsio ar ben y tai. Ond, er hynny, mae wedi bod yn dda iawn arnom ni yn y rhan yma o Gymru o'i gymharu a rhai mewn mannau eraill. Gobeithio fod pawb yn gallu dod i ben â'r difrod.

Mae yr eira wedi dod dyn isel iawn ar y mynyddoedd ond heb gyrraedd y drws eto. Mae'n siŵr o ddod cyn diwedd y gaeaf, ond gobeithio na fydd yn rhy ddrwg ac y gallwn fynd a dod.

Cymdeithas Cyfeillion Plas Pengwaith.

Mae'r Gymdeithas wedi ei sefydlu, y Swyddogion yn eu lle a'r amcanion wedi eu cytuno. Ymlaen a ni gyda'r gweithgareddau codi arian. Hyd yn hyn, mae oddeutu £1.000.00 o bunnoedd wedi eu casglu o'r ymdrechion: Margaret yn seiclo yn Ynys Môn, Stondin yn y Ras Beiciau yn gwerthu cacennau a Stondin yn Ffair yr Eglwys hefyd yn gwerthu cacennau. Diolch i bawb a gyfrannodd a chynorthwyo. Gweithgareddau eraill sydd ar dro ydi, Prynu rhif Pel Bonws y Loteri Cenedlaethol gyda gwobr misol, Prynu Diwrnod yn nyddiadur 2014 a threfnu sel cist car yn y gwanwyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyfeillion ym Mhlas Pengwaith ar Fawrth y Sed am 2 o'r gloch, Croeso cynnes i bawb.



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202



GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286) 650552 Mob. 07712779475

Pryd i bawb

Arlwyo at bob achlysur
Yn ynrhyw leoliad
Bwffe Blasus o Safon

PRIODAS
CYFARFODYDD
BEDYDD • PARTI • TE
ANGLADD
BASGED PICNIC
BWYD YN UNIG. NEU
GWASANAETH LLAWN

CERID MACKINNON

(01286) 673190
Symudol 07774 925502



ORIEL CWM
CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch Diolch i bawb a gefnogodd weithgareddau Nadolig yr ŵyl. Cafwyd noson rhoi goleuadau'r pentref ymlaen gyda adloniant, disgo Nadolig gyda groto Siôn Corn ac yna taith Siôn Corn oddi amgylch yr ardal. Diolch i bawb a gyfrannodd yn ariannol tuag at lwyddiant y gweithgareddau eto eleni. Mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau hynod weithgaredd ac ymroddedig, ond mi fyddai croeso i aelodau newydd ymuno er mwyn helpu gyda'r gwaith o drefnu'r gweithgareddau ac i gynnig syniadau am weithgareddau newydd i'w cynnal ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Llongyfarchiadau mawr i Catrin Llewelyn, 3 Hafod, ar basio ei arholiad piano Gradd 8 gyda theilyngdod yn ddiweddar.

Côr Cynfi Mae'r côr yn parhau i fynd o nerth i nerth ac mae croeso i aelodau newydd ymuno. Mae'r criw yn ymarfer ar nos Iau yn y festri am 7.30.

Tywydd garw Cafwyd stormydd a thywydd garw dros y Nadolig, er ddim mor ddrwg a rhai ardaloedd eraill. Cafwyd difrod i ambell adeilad a dymchwel ambell goeden, yn arbennig felly, coeden hynafol a sylweddol ger Cynfi a ddaeth i lawr gan greu difrod o'i chwmpas. Gobeithio na ddioddefodd neb yn ormodol a'n bod wedi gweld cefn y tywydd gwaethaf.

Maes Gwylfa Mae'n ymddangos fod gwaith sylweddol ar fin dechrau ar nifer o dai Maes Gwylfai. Dim byd yn arbennig yn hynny fel arfer, ond be mae'n ei olygu

yw y bydd tai a adnabyddir fel tai 'Airey' a godwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, yn cael eu trawsnewid i gyrraedd gofynion safonol cyfredol. Mae cynllun Cartrefi Cymunedol Gwynedd i addasu'r holl dai Airey o fewn eu stoc tai trwy'r sir yn golygu y byddwn yn gweld trawsnewid yr holl dai yma dros amser ac y bydd cymeriad y stadau hyn yn cael eu newid am byth. Yn sicr ni fydd Maes Gwylfa yn edrych yr un peth byth eto, ond y gobaith yw y bydd y trigolion yn hapus wedi dychwelyd i'w cartrefi 'newydd'. Mae croeso i unrhyw un gyfrannu lluniau o'r tai hyn er mwyn eu cadw ar gof.

Llyfr ar werth Mae nifer cyfyngedig o lyfr arbennig ar werth sef "Traethodau ar Waen Gynfi". Dyma ail argraffiad a wnaed yn ôl yn 1985 gan y diweddar Eurig Wyn, sef traethodau ar hanes Gwaen Gynfi a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth Undeb Llenyddol Deiniolen yn 1868. Rhoddir y llyfrau yma yn garedig iawn gan Emyr Gruffudd, Caernarfon, gyda'r holl elw yn cael ei gyflwyno i Eisteddfod Gadeiriol y pentref. Diolch yn fawr iawn i Emyr am y rhodd hael yma, mae'r llyfrau ar gael am £3.00 trwy gysylltu â gohebydd Deiniolen.

Cyngerdd Mynydd Gwefru Yn dilyn y cyngerdd ardderchog a gynhaliwyd gan Fand Deiniolen, Côr Dyffryn Peris ac Artistiaid Unigol yn y Mynydd Gwefru, Llanberis, ar y 15fed o Ragfyr, mae'r elusen "Hospis yn y Cartref" wedi derbyn rhodd, o £300, a gasglwyd yn ystod y cyngerdd.

Dymuna Beti Roberts, Rhydfadog, ddiolch o galon i'w

theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion, arian a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn 80 mlwydd oed ddechrau Rhagfyr. Diolch hefyd i Buddug a Rhianwen am drefnu parti syrpreis yn y tŷ. Unwaith eto, diolch yn fawr i chi i gyd.

Y Gymdeithas Undebol Croesawyd Miss Siân Elen Thomas, Caernarfon, Prifweithredwr Gisda atom gan y Llywydd, y Parch John Pritchard. Roedd yn braf ei gweld yn ôl yn ei chynefin yn y pentref.

Daeth dau o'i chydweithwyr yn Gisda efo hi i sôn am y gwasanaetha gwerthfawr hwn i bobl ifanc digartref Gwynedd.

Diolch i Siân a Mel a Harri am ddod i rannu'r stori gyda ni. Ar ddiwedd y noson gofynnwyd i bawb gefnogi Gisda trwy bleidleisio dros yr elusen er mwyn ennill gwobr o £50,000 i'r elusen a fyddai'n cael y mwyaf o bleidleisiau gan fod Gisda yn gobeithio agor Caffi Ni i bobl ifanc. Daeth ail gyfle i bleidleisio cyn diwedd yr wythnos ac mi fuo nhw'n llwyddiannus y tro yma.

Diolchwyd yn gynnes iddynt ar ran y Gymdeithas gan y Cynghorydd Elfed Williams.

Cyngor Eglwysi Deiniolen Diolch yn fawr iawn am bob cyfraniad a dderbyniwyd at y casgliad a wnaed gan Gyngor Eglwysi Deiniolen at Apêl Cymorth Cristnogol i gefnogi'r bobl yn y Philipinau a ddioddefodd oherwydd y gwyntoedd mawr a darodd yr ynysoedd hynny. Derbyniwyd £432.65.

Diolch yn fawr i bawb yn y pentref a gyfrannodd at yr apêl.

Eglwys Crist Dechreuwyd dathlu Tymor y Nadolig drwy gynnal y Cyngerdd Blynnyddol. Eleni cawsom Seindorf Arian Deiniolen i'n harwain a thalentau lleol yn cymryd rhan a chafwyd noson arbennig o dda. Diolch i bawb a gymerodd ran, i'r trefnwyr, y gwerthwyr tocynnau ac i bawb a gefnogodd y noson.

Y Sul canlynol, yn ystod Gwasanaeth y Cymun rhoddodd yr Ysgol Sul eu dehongliad hwy o Wyl y Geni i ni. Rydym yn ddiolchgar iddynt ac i'r athrawon am eu hymroddiad.

Ar y Sul ar drothwy'r Nadolig, dan nawdd Cyngor Eglwysi Deiniolen, cafwyd gwasanaeth naw Llith a Charol. Y capeli a'r eglwysi yn dathlu'r Wyl ac roedd graen ar y canu a'r darlleniadau. Diolch hefyd i Dr William Munro am arwain y Gwasanaeth, mae wedi gwneud sawl cymwynas i ni yn Llandinorwig ers peth amser.

Yna, fore Llundun, er gwaethaf y tywydd stormus cafwyd gwasanaeth wrth y Preseb, gyda'r Ficer, y Parchedig Carol Roberts.

Noswyl y Nadolig gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan y Canon Idris Thomas. Dechreuwyd gyda Mrs Eleanor Morris yn goleuo'r Gannwyll Wen ar Dorch yr Adfent. Da oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd, y ffyddloniaid ac aelodau gartref dros yr ŵyl.

Diolch i bawb a drefnodd ac a gefnogodd y Gwasanaethau i gyd, gan ddymuno Blwyddyn Newydd fendithiol i bawb.



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd  **CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**
Cyrrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Dymunir blwyddyn newydd dda i holl drigolion y pentref, yr ardal a darllenwyr yr Eco, ar ddechrau blwyddyn newydd fel hon. Gofynnir am straeon a chyfraniadau i'w cynnwys o fewn newyddion y pentref.

Plant yr ysgol Sul

Ysgol Sul Undebol Cafwyd gwasanaeth Nadolig hynod o fywiog gan blant yr ysgol Sul eto eleni. Mwynhawyd y cyflwyniad yn fawr gan pawb a fynychodd y gwasanaeth. Diolch yn fawr i bawb a gymrodd ran ac i'r plant a fu mor ffyddlon i'r ysgol Sul trwy'r flwyddyn. Fel arwydd o ddiolch, cafodd y plant ddewis gweithgaredd ac felly fe gafwyd taith i'r sinema a bwyd i ddilyn. Mae'r ysgol Sul yn cyfarfod yn y festri am 10.15, mae croeso i unrhyw un ymuno â'r criw.

Ysgol Gwaun Gynfi



Gweler Neve, Megan a Haf yn edrych ar ôl y llysiau yng ngardd yr ysgol. Bu'r plant wrthi'n cynllunio gardd eu hunain ac maent wedi trawsnewid tu blaen yr ysgol. Maent wrthi ar hyn o bryd yn cynllunio rhan arall.



Plant Blwyddyn 3 Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen wedi bod yn yr Amgueddfa Lechi yn dysgu am draddodiadau'r Nadolig ers talwm megis y Fari Lwyd.



Crynodeb o adroddiad Arolwg yr ysgol

Derbyniodd yr ysgol adroddiad cadarnhaol iawn. Dyma rai dyfyniadau.

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:
bod bron pob disgybl yn hapus, yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu;
bod canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cymharu'n dda gyda chanlyniadau ysgolion tebyg a ffigurau Cymru gyfan dros gyfnod o bedair blynedd;
bod cyfraddau presenoldeb yn gyson uwch nag mewn ysgolion tebyg; bod staff yn cynllunio profiadau eang sy'n ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion; a bod ansawdd yr addysgu yn effeithiol.

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:
bod gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles plant;
bod y pennaeth yn llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr;
bod y dirprwy a'r tîm rheoli yn cefnogi gwaith y pennaeth yn effeithiol i sicrhau ymdeimlad o waith tîm ymhlith yr holl staff;
bod hunan arfarnu wedi ei sefydlu'n gadarn, ac yn galluogi'r ysgol i adnabod yn gywir ei chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella; a bod cynlluniau gwella yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau.

Mae bron pob disgybl yn medru defnyddio'r Gymraeg yn gywir, yn naturiol ac yn hyderus tra wrth eu gweithgareddau yn y dosbarth ac ar adegau eraill yn ystod y dydd.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru cynnal sgysiaid mewn modd aeddfed yn y Gymraeg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus yn y Saesneg. Maent yn medru darllen i safon sydd o leiaf yn cyfateb i'w hoed, gan amrywio goslef eu llais yn briodol er mwyn cyfleu ystyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig i safon uchel mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau gwrando'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru trawsieithu'n effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm.

Mae darpariaeth effeithiol ar draws y cwricwlwm sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o gynladwydd a dinasyddiaeth fyd eang, yn ogystal â rôl ac effaith dynoliaeth ar y byd. Mae'r elfen hon yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd. O ganlyniad, mae ethos gynhaliol yn bodoli sy'n sicrhau dysgu da.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr.

Mae ansawdd y gefnogaeth ar gyfer disgyblion ag anableddau corfforol yn arbennig o effeithiol, ac mae ansawdd, ymroddiad ac arbenigedd aelodau o staff cefnogi yr ysgol o safon uchel.

Mae ethos cynhwysol, tawel a chroesawgar yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r mannau cyhoeddus yn lliwgar ac yn cynnwys arddangosfeydd graenus o waith a llwyddiannau'r disgyblion, sy'n symbylu'r dysgu.

Mae'r ardd eco newydd a gynlluniwyd gan y disgyblion, yn adnodd gwerthfawr i symbylu'r dysgu.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles plant. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Caiff gefnogaeth dda gan y dirprwy a'r tîm rheoli. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir sy'n gyfrannu'n llwyddiannus tuag at wireddu ei hamcanion. Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn glir ac maent yn gweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol.

Mae'r staff wedi rhoi cychwyn buddiol ar weithredu gofynion y Fframwiaeth Llythrennedd a Rhifedd ac mae hyn yn cael effaith bositif ar safonau y disgyblion, yn enwedig yn y Gymraeg. Cafodd medrau darllen Cymraeg eu targedu'n ddiweddar gan arwain at gynnydd arwyddocaol yn y safonau.

Mae'r broses hunan arfarnu yn drylwyr, yn ddilys ac wedi ei seilio'n glir ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl iawn o ddata.

Mae partneriaeth briodol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn dda. Mae hefyd yn hyrwyddo'n effeithiol eu hymdeimlad o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu Cymreictod.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Manteisir yn llawn ar arbenigedd staff i gynnig profiadau dysgu diddorol. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd a wneir o arbenigedd athrawes allanol i addysgu cerdd.

Defnyddia'r ysgol staff ategol yn effeithiol i gefnogi'r addysgu ac i ofalu a rhoi cymorth i'r disgyblion.

Rheolir gwariant yn ofalus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r un peth yn wir am y canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (deiliant 5) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013, mae 100% o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd). Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru.

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvoniaco.uk

Caffi Caban
ar agor

9 y bore tan 4 y pnaun- 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni -cydweithredol Di-elw Yw Caban Cyf
Wedi Ei Sefydlu i
Hwyluso Datblygiad Economaidd Cefn Gwlad

Nod Caban Cyf, yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (UNEDAU BUSNES CABAN) ER MWYN CREU CYFLEOEDD GWAITH

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Ionawr fy Mis Pensynnu

‘Mandela’

Tu ôl i'r wên roedd enaid – a burodd
drwy bair ‘r hen Samariaid,
rhoi’i einioes i’r trueiniaid
ei fyw a roes, rhoes o raid!

Cwestiwn i bawb yn 2014

Un ei bobl ac un ein byd – y blaned
sy’n wyrth blaen o symud;
ond, paham, ac am ba hyd
na welwn oll y ‘golud’?

Dafydd Wigley

(wedi darllen *Be Nesa?*)

Hwn yw gwleidydd ein gwleidyddion – yr un
drwy yr holl dreialon
roes drwy’i oes i’r Walia hon
safiad a pharch a safon.

Y Cylch Cyfan

Cawn gip o’r gaeaf’n wincian
tra’r hydref yma’n stelcian:
gallt a gwydd gwefr ddi droi yn ôl
anfarwol y cylch cyfan.

Âr gaeaf wedi gafael
‘r elfennau sy’n ymrafael
dros fôr a thir, ac ar bob llaw
mae traw y rhod ar drafael...

‘R’hen gloc sy’n ddibynadwy,
bob awr mae’n dangos fwy-fwy
y golau’n weindio brig bob llwyn
i’r gwanwyn ddod drwy’r adwy...

Try lês y dywysoges
yn fantell fraith brenhines -
ac er ei gwedd – ‘fi-bia’r byd’
tro’r rhod o hyd yw’r ‘sîmstres’.
Norman Closs

Sgwarnaw.

Defnyddiwyd y llythrennau (unwaith yn unig) i ffurfio geiriau
pedair llythyren neu fwy. Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff,
ng, ll, ph, rh a th. O ddefnyddio’r holl lythrennau gallwch ffurfio
enw lle yng Nghymru. Rhaid defnyddio’r llythyren yn y sgwar
canol ym mhob gair.

Y mis hwn:
5 gair = da; 10 gair = da iawn;
15 gair neu fwy – ardderchog.
Ateb y mis diwethaf: Caergwrle.
Roedd yn bosibl cael dros 15 o eiriau o’r sgwar.

B	E	M
R	A	E
G	Th	N

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi tori darn o ddodrefn?

Holl gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch a ni i roi bywyd newydd i’ch trysor

Dennis a Julie Jones


01286 650255

"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



grid ⁷⁶

dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug **07766956673** gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

YSWIRIANT FUW



Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FFW?

Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683

Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol.
Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



PARTI PENDALAR

Ar ddiwedd tymor y Nadolig fe ddaeth pob aelod o Ysgol Pendalar i Ysgol Brynrefail ar gyfer y parti blynyddol mawreddog. Yr ydym yn ddiolchgar i unigolion, sefydliadau a chwmnïau am eu caredigrwydd ac am eu rhoddion wnaeth gyfraniad godidog i drefniadau'r parti.

Ond y mae'r clod mwyaf yn mynd i aelodau o flwyddyn 12 weithiodd mor gydwybodol trwy gydol tymor y Nadolig gyda'i teithiau cerdded, coginio cacenni, rhaglen o ornestau yn ystod yr awr ginio. Ar ben hynny buont yn gyfrifol am archebu, lapio a dosbarthu'r holl anrhegion.



Ysgol Cwm y Glo



Roeddym wedi cael cystadleuaeth creu poster cyn yr haf. Roedd Gwen wedi dod draw a gofyn i ni am syniadau ar gyfer tynnu sylw pobl at y broblem baw cŵn yn y pentref. Mae y poster llwyddiannus wedi cael ei droi yn arwydd ac os ydych yn mynd am dro trwy y pentref fe welwch y poster lliwgar yn gofyn i bobl godi baw cŵn. Eleanor Edward Jones oedd wedi gwneud y poster, mae hi yn Ysgol Brynrefail erbyn hyn. Dyma ein lluniau gyda Gwen a'r arwydd sydd ar ffens yr ysgol.

Mae mis Rhagfyr wedi bod yn brysur iawn i ni. Aeth y babanod am dro i'r goedwig. Roedd pawb wedi mwynhau gwneud teisen gri ac addurniadau Nadolig yn yr awyr agored.

Aeth ein dosbarth ni i Gastell Penrhyn i brofi Nadolig Oes Fictoria. Roedd yn rhaid i ni ganu i 'Lady Penrhyn' yn ei hystafell foethus yn y castell.

Aeth pawb i Bantomeim Martin Geraint yn y Galeri a chael hwyl fawr.

Mae ein dosbarthiadau wedi bod fel ffatri Siôn Corn efo pawb yn gwneud addurniadau. Mae rhai o'r addurniadau i'w gweld yn 'Caban' Brynrefail ac roedd rhai yn cael eu gwerthu yn ein Ffair Nadolig.

Rydym angen diolch yn fawr i Morfydd Thomas (mam Mrs Bayley) am ddod i goginio efo ni. 'Da ni i gyd wedi gwneud teisen Nadolig fach bersonol efo hi.

Daeth Mel Roberts (mam Gwyn) i wneud addurniadau efo ni er mwyn i ni gael eu gwerthu yn y Ffair Nadolig.



Roedd ein gwasanaeth Nadolig ar fuarth yr ysgol eleni. Daeth ein rhieni a phobol y pentref i ganu carolau gyda ni cyn cael diod cynnes arbennig Anti Janet a mins peis yn y neuadd. Dywedodd Mrs Oliver ein bod ni wedi casglu £250 i elusen Ambiwlans Awyr Cymru ar y noson. Roedd Mrs. Oliver yn diolch i bawb oherwydd roedd y staff i gyd yno. Roedd yn rhaid i Miss Williams a Miss Johnstone afael yn goeden Nadolig rhag ofn iddi chwythu i ffwrdd. Rydym yn diolch yn fawr i Hawys Price (ffrind Miss Awen Jones) am ddod i chwarae y biano i ni ar y noson.

Daeth Siôn Corn i'n gweld tra roeddym yn bwyta ein cinio Nadolig. Mae'n rhaid ein bod ni wedi canu yn dda iddo ein clywed.

Rydym yn ffarwelio efo Miss Awen Jones ar ddiwedd y tymor. Mae wedi bod yn athrawes dda i ni ac wedi ein helpu. Diolch yn fawr Miss Jones. Rydym yn gobeithio cewch chi hwyl yn Ysgol Maesincla yn Ionawr.

Gwellhad Buan Anfonwn ein cofion, gan ddymuno gwellhad buan, i Mrs Catherine Hughes, 2 Maes Gerddi, ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl. Hefyd i amryw sydd heb fod yn dda yn ystod y misoedd diwethaf.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Jennifer a Roberts, 4 Dôl Afon, ar enedigaeth merch, Poppy, chwaer fach i Elli, Robert, Keith, Jack, Dylan ac Alfie.

Mwy o luniau Llanddeiniolen...
Dyma ddau lun arall gan Brenda Morris Jones yn cofnodi peth o hanes Ysgol Llanddeiniolen.



1) Tua 1902
Rhes flaen, trydydd o'r chwith, Sam Morris, Fachell. Seithfed o'r chwith, Gwen Morris.
Yr ail res, Trydydd o'r chwith, Moi Morris. Athrawes, Miss Roberts
2) Tua 1939 - Trip i Llanberis. Miss Catherine Gillespie (ddim yn y llun) oedd yr athrawes ar y pryd. Deuai â'i chi mawr du i'r ysgol (labrador, dwi'n meddwl).
Rhes gefn
Beti Dora; Gwyneth, Rynys; Linor a Nesta, Seion.
Rhes Ganol
Mair, Post Seion; Idris, Fachell;
Rhes flaen: Helen, Parcia Rhos; Ifor, Fachell; Eric, Ty'n Llan; Elfyn, Ty'n Rhos; Ceri, Parcia Rhos.



CHWILOTA

Corau a Cherddorion.

Colofn gerddorol fydd hi y mis hwn, a hynny o ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd yn dilyn hanes Steddfod Lewis, Lerpwl yn y ddau rifyn diwethaf, a'r cais am wybodaeth ynglŷn ac Alaw Mai o Lanberis. Gyda diolch i bawb am eu llythyrau, e-byst a galwadau ffôn.

Côr Chwarel Dinorwig.

Dechreuwn gyda Côr Chwarel Dinorwig neu Gôr Peleg fel y cai ei alw, oherwydd mai Peleg Williams, Caernarfon oedd yr arweinydd. Mae'n ymddangos i'r côr gael ei ffurfio allan o ddau o gorau meibion llai oedd yn bodoli yn Neiniolen a'r cylch. O uno'r ddau gôr, a chael Peleg Williams yn arweinydd, datblygodd i ddod yn un o'r corau meibion mwyaf llwyddiannus yng ngogledd Cymru. Cefais gryn dipyn o hanes y côr gan Trefor Wyn Jones o'r Groeslon (Brynrefail yn wreiddiol). Yn un ar bymtheg oed, ac yntau'n gweithio yn Chwarel Dinorwig, cafodd wahoddiad i fynd i wrando ar y côr yn ymarfer yn Festri Capel Disgwylfa. Aeth ef, a'i ffrind, Idris Wyn, Cae'r Bleddyn, draw i wrando un noson, a chael prawf gan Peleg a gwahoddiad i ymuno. Ymunodd Idris â'r baswyr, a chafodd Trefor ei osod gyda'r ail denoriaid. O fewn blwyddyn, roedd yn canu gyda'r tenoriaid cyntaf. Mae'n cofio cystadlu yn Steddfod Lewis, ac yn curo côr Rhosllannerchrugog. Y drefn bryd hynny oedd i rywun ffonio'r canlyniad trwodd o Lerpwl i siop y chemist yn Neiniolen; un o'r ychydig lefydd yn y pentref gyda chysylltiad ffôn. Byddai'r newyddion am lwyddiant y côr yn cael ei drosglwyddo o'r naill i'r llall yn y pentref, ac erbyn i'r côr ddychwelyd, byddai torf anferth o gefnogwyr yn barod i'w croesawu ar y sgwar o flaen y llyfrgell.

Bu'r côr hefyd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nolgellau yn 1949, a wynebu corau meibion mawr y de, fel Treorci a Threforus. Er fod aelodaeth Côr Chwarel Dinorwig dros 90, dim ond 82 oedd yn gallu bod yn bresennol ar y llwyfan. Roedd gan y corau eraill dros 120 o aelodau. Côr Dinorwig fu'n fuddugol ar un o'r darnau, ond trydydd oedd eu safle yn y

gystadleuaeth. Cyfeiriwyd atynt gan y gynulleidfa fel y "côr bach da", am fod ganddynt bron i ddeugain yn llai o leisiau na'r corau eraill! Ond gan Gôr Dinorwig roedd y baswyr gorau. Meddai un o'r beirniaid: "roedd baswyr Treorci fel cathod bach wrth rai Dinorwig".

Aelod o Gôr Chwarel Dinorwig, sef Napier Williams, Penisarwaun, oedd yn fuddugol ar yr unawd yn yr eisteddfod honno. Ei hoff gan oedd "When your little hand is frozen."

Bu'n rhaid i Trefor Jones ymuno â'r Gwasanaeth Cenedlaethol yn fuan wedyn, ac erbyn 1952, pan ddychwelodd i'r ardal, roedd Côr Chwarel Dinorwig wedi chwalu. Mae'n ymddangos mai un o'r rhesymau am hynny oedd fod Peleg Williams yn awyddus i gynnal yr ymarferiadau yng Nghaernarfon oherwydd iddo gael addewid am fwy o denoriaid i ymuno. Ond roedd aelodau Deiniolen a Dinorwig yn anfodlon iawn ar hynny. Fu dim cyfaddawdu, a dyna ddiwedd y côr.

Ymunodd Trefor Jones a Chôr y Caernarfon Choral Union dan arweiniad Dilys Wynne. Côr cymysg oedd hwn, ond roeddent yn awyddus i ffurfio côr meibion i gystadlu yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn 1953, ac felly y bu, ond ni chafwyd llwyddiant.

Flynnyddoedd yn ddiweddarach, a Trefor Jones erbyn hynny yn gweithio i Wasanaeth yr Automobile Association, cafodd alwad i ogledd Môn, ble roedd car wedi torri i lawr ger Pensarn, Amlwch. Ffrind a chydymaith y gyrrwr anffodus oedd John Cynan Jones, arweinydd Côr Meibion Treorci. Ac yn ystod y sgwrs a ddilynodd, cafodd Trefor Jones y cyfle i atgoffa'r arweinydd am y feirniadaeth honno yn Steddfod Dolgellau ugain mlynedd a mwy yn ôl. A melys fu'r sgwrsio – a'r gwahoddiad am baned yng ngharfan y gyrrwr a'i gydymaith!

Llawer o ddiolch i Trefor Jones am orig hynod o ddifyr yn sgwrsio am hanes Côr Chwarel Dinorwig.

Diolch hefyd i Dylan Hughes, Llanrug am anfon copiau o doriadau papur newydd yn ymwneud a llwyddiant y côr a'r arweinydd, ac i Eluned Jones, Mochdre, sy'n cofio mynd gyda'i thad i ymarferion y côr yn Festri Disgwylfa. Yr oedd ei thad, Robert Hughes (Bob) a'i ddau frawd, John (Jack) a Humphrey yn aelodau, a'u tad hwythau hefyd, sef Richard Hughes. Cofia Eluned fynd ar y bws 'Bangor Blue' o Lanberis i Glwt y Bont ar ddydd Sul i ymweld â'i nain a'i thaid yn Rhes Gwyrfa, ac yna cael mynd gyda'i thad i wrando'r côr yn ymarfer.



Alaw Mai.

Gan Mrs Nan Owen, Llanberis, y death gwybodaeth am y cerddor Richard Jones. Mae'n ei gofio'n byw y drws nesaf iddi yn 7 Rhes Efrog. Bu'n organydd Eglwys Sant Padarn am tua deugain mlynedd, ac fe'i dilynwyd yn y swydd gan

Mr Huxley Thomas. Roedd Richard Jones yn stiward yn Chwarel Dinorwig, yn arddwr da, a phob amser yn cario ffon fechan debyg i faton arwain côr gydag ef.

Roedd Mrs Jones, hithau hefyd yn flaengar iawn gyda gwaith yr Eglwys, yn enwedig Undeb y

Mamau. Bu'r un mor weithgar gyda Sefydliad y Merched yn y pentref, ac yr oedd rhwng hanner cant a chant o aelodau yn perthyn i'r ddau fudiad.

Roedd ganddynt ddau o blant: Vera, a briododd a symud i Gaernarfon, a Watcyn a fu'n brifathro Ysgol Tan y Coed,

Penisarwaun, ac yn organydd yn y Gadeirlan ym Mangor am gyfnod.

Gan Anita Butler, Llanfairfechan y daeth y llun – priodas ei rhieni, a Richard Jones yn un o'r gwesteion. Mae gan Anita gof plentyn ohonno yn byw yn Rhes Efrog

William James a Chôr Merched Llanberis.



Athro yn Ysgol Brynrefail oedd William (Bill) James. Daeth atgofion amdano gan rai cyn-ddisgyblion; yn eu plith Mrs Dorothy Jones, Cwm y Glo ac Eirwyn Williams, Llwyncoed. Gwr trwsiadus yn dysgu cerdd a daearyddiaeth yn ôl Mrs Jones, a fu’n canu alto yn ei gôr ysgol. Mae’n ei gofio fel gwr trwsiadus gyda gwallt du a mwstas. Doedd Eirwyn Williams, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, ddim yn gerddor, ond yn hoffi cerddoriaeth, ac yn cofio Bill James yn dysgu ac arwain corau Ysgol Brynrefail a Merched Llanberis. Cof ganddo hefyd am berfformiad o’r Meseia yng Nghapel Coch, rywdro ar ddechrau’r 1950’au, a’r capel yn orlawn. Bill James oedd yn hyfforddi ac arwain, a chredai fod unawdwyr gwâdd yn cymryd rhan. Dan arweiniad Bill James, enillodd Côr Merched Llanberis yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl yn 1953, ac mae’n credu i’r côr wneud record hefyd: mae’n cofio gweld y recordiad yn cael ei wneud yn Ysgol Dolbadarn. Oes rhywun all gadarnhau hyn?

Roedd gan Margaret Roberts, Caernarfon gysylltiadau teuluol â Bill James. Pan oedd Margaret yn byw ym Mryn Madog, Brynrefail, roedd Bill James a’i wraig, Bronwen yn byw yn Orwig Terrace, gyda’i dau fab, Geraint ac Eilian. Daeth chwaer Bronwen, sef Beryl, o Aberystwyth i fyw atynt, a bu’n gweithio yn NECACO yn ystod y rhyfel. Yno cyfarfu ac ewythr Margaret, sef Alun Roberts, a phriododd y ddau maes o law. Symudodd teulu Bill James wedyn i Snowdon View, Llanberis, ond deuai’r meibion ar eu gwyliau i Fryn Madog yn ystod yr haf. Blwyddyn yn unig a gafodd Margaret yng nghwmni Bill James

yn Ysgol Brynrefail, ac mae’n cofio canu ‘Ymhlith Plant Dynion’ yn ei gôr plant yn Nhapel Brynrefail. Yn ôl Margaret, enillodd Côr Merched Llanberis sawl cystadleuaeth dan arweiniad Bill James, a thybia hi eu bod wedi ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst hefyd.

Symudodd y teulu o Lanberis pan gafodd Bill James swydd athro cerdd ym Maesteg, ond yn anffodus, cafodd drawiad ar y galon o flaen ei ddosbarth a bu farw’n wr ifanc. Bu Eilian y mab, oedd yn beiriannydd sifil, hefyd farw yn ifanc, ond mae Geraint yn dal i fyw yn ardal Maesteg.

Gan Gwyneth Parry, Llanberis y daeth y llun o Gôr Merched Llanberis. Yr oedd ei mam, Delia Parry, a’i nain yn aelodau o’r côr. Dyma’r enwau fel y derbyniwyd hwy:

Rhes gefn: ? ? Delia May Parry, ? Mrs Hughes, Bron Eryri, Gwen Fosse, Menai, ? Miss Evans arthrawes, mam Elwyn Hogia’r Wyddfa, ? ? Rosie Hughes, Nain Anne a Gwyneth Parry, ? ? mam Stella, Bronwen James, ?

Trydydd rhes: Anti Doris, Mrs Jeffra Owen, Delyth Huws, Mrs Belmont Owen.

Ail res: Cassie Jones, ? ? Paggy Baton, ? Bill James, Anti Netta Beehive, Grace Owen, Katie Jones (mam Arwel), Annie Minffordd, ? ? Anti Cadi.

Rhes flaen: ? Mrs Mathias, ? ? Annie Wilson, Anti Cilla cinio ysgol, Cyfeilydd – Edith Wyn, Anti Julia, mam Olwen Rees, Nell Davies.



Ysgol Waunfawr yn y 1930’au?

A all unrhyw un o’r darllenwyr enwi rhai o’r plant sydd yn y llun? Neu beth am atgofion am gyfnod cynnar yn yr ysgol?

Cais am Wybodaeth.

Oes unrhyw un yn gwybod ble roedd lleoliad Tyddyn Eithin yn Llanddeiniolen? Chlywais i erioed am y fath le, ac ni welais gofnod ysgrifenedig ohonno chwaith hyd y cofiaf. Oes unrhyw un o’r darllenwyr wedi dod ar draws yr enw?

Y mis nesaf cawn hanes digwyddiad anghyffredin ym Mhenscoins, cyngerdd yn Llanberis yn 1868 a llun arall o Ysgol Waunfawr yn y gobaith o gael enwau’r disgyblion. Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffon: 01286 673515)



Priodas Yn ddiweddar yng Nghapel y Rhos, Llanrug, priodwyd Siôn, mab Mr a Mrs M. Stokes ac Eleri, merch Mr a Mrs Maldwyn Williams, Llanfairpwll. Cafwyd gwasanaeth ysgafn braf gan y Parchedig Marcus Robinson cyn mynd ymlaen i Westy Bron Eifion, Cricieth, am y brecwast priodas.

Pob dymuniad da i'r dyfodol gan y ddau deulu.

Hoffai Siôn ac Eleri ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am wneud y diwrnod yn un bythgofiadwy a diolch i bawb am yr anrhegion.

Merched y Wawr



Tîm Llanrug wedi iddynt ennill cystadleuaeth Bowlio 10 Merched y Wawr Arfon ar Ionawr 17.

Nos Fawrth, Rhagfyr 10fed, i ffarwelio â'r flwyddyn 2013 aeth nifer dda o aelodau i ddathlu'r Nadolig i'r Black Boy yng Nghaernarfon a diolchwyd i'r staff am y wledd amheuthun. Diolch i Linda ac Olwen am y trefniadau trylwyr.

Nos Fawrth, Ionawr 14, dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn 2014 gan y Llywydd, Nan Humphreys. Cychwynwyd

y noson gyda Chân y Mudiad.

Derbyniwyd cais eto eleni ar i'r gangen redeg y caffi yn Eisteddfod Cylch yr Urdd dydd Sadwrn, Mawrth 8fed. Roedd pawb yn foddlon helpu drwy lenwi rota i helpu yn y caffi a chyfrannu bwyd a diod i'w werthu. Dymunwyd pob lwc i'r aelodau fydd yn cymryd rhan yn y Bowlio Deg ar Ionawr 17.

Cynhelir cystadlaethau Gŵyl Haf ar Fai 17 gyda'r

Rhagoriaeth Cylch Ti a Fi Llanrug.



Yn dilyn arolwg proffesiynol annibynnol, mae Cylch Ti a Fi Llanrug wedi derbyn tystysgrif sy'n cydnabod rhagoriaeth ym myd gofal ac addysg blyneddododd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol. Sefydlwyd cynllun 'Cylch Ti a Fi Rhagorol' gan Mudiad Meithrin, ac meddai Gruff Hughes, Cadeirydd y Mudiad: "Gwyddom fod llawer o'n cylchoedd yn darparu gwasanaeth rhagorol, ond hyd yn hyn ni fu modd gennym i gydnabod hynny yn genedlaethol. Rydym yn hynod falch o gyflwyno'r sêl 'Cylch Ti a Fi Rhagorol' i Lanrug." Roedd yr arolwg yn cymryd i ystyriaeth holl agweddau'r Cylch Ti a Fi, gan gynnwys y bobl, yr amgylchedd, a'r profiadau a gynigir i'r plant. Dywedodd Enyd Lloyd Jones, Arweinydd

Cylch Llanrug: "Rydym yn falch iawn o'r anrhydedd: mae'n golygu llawer i bawb sy'n ymwneud â'r Cylch – y staff, y rhieni a'r gwirfoddolwyr. Mae'r plant yn mwynhau dod yma i ddysgu a chael hwyl drwy chwarae yn y Gymraeg. Bydd derbyn y sêl hon yn ein galluogi i ddangos i rieni a darpar rieni ein bod yn cynnig gwasanaeth rhagorol i'w plant."

Mae Cylch Ti a Fi Llanrug yn cyfarfod yn Festri Capel y Rhos ddwywaith yr wythnos yn ystod tymhorau ysgol, sef pnawn Mawrth o 1.00 hyd 2.45, a bore Gwener o 9.00 hyd 10.45. Ar hyn o bryd mae rhwng pymtheg ac ugain o blant yn mynychu'r sesiynnau, gan gynnwys mamau, tadau a neiniau.

siaradwraig wadd, Betsan Powys. Prif gystadleuaeth y dydd i aelodau'r Mudiad yw ysgrifennu stori neu gyfres o straeon ar gyfer y dysgwyr (nid dechreuwyr) dyddiad cau yw Mawrth 1af. Cystadlaethau Adloniant yw 'Cyflwyniad "Merched". - canu, adrodd neu gyfuniad, Sgets yn seiliedig ar ddrama, Dysgwyr a Daioni, neu un o'r uchod.

Rhaid cofrestru ar y diwrnod gyda Chrefft

- 1 Llusern - unrhyw gyfrwng
- 2 Clustog - unrhyw gyfrwng
- 3 Dathliad Aur - (er mwyn cael syniad o nwydd newydd, e.e. Ffedog aur, llwy garu, cerdyn newydd ayyb)

Rhaid cofrestru ar y diwrnod ar gyfer y coginio hefyd, sef 4 teisen gwpan addurnedig (y blas a'r addurn i gyfrif).

Dyddiad cau ysgrifennu Stori Feicro - 'Casglu' gan gynnwys llun yw Mai 1af.

Cystadleuaeth Drama 2014 - drama fer gyda'r pwyslais ar hiwmor. Rhaid i'r gwaith fod yn wreiddiol ac yn

agored i aelodau Merched y Wawr yn unig. Dyddiad cau - Mai 1af - dylid cynnwys eich enw mewn amlen a rhoi ffugenw ar eich gwaith a'i anfon i Tegwen Morris, Canolfan Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1JH.

Mae rhestr o gystadlaethau Sioe Llanellwedd ar gael gan yr ysgrifennydd, Olwen - Cynnyrch a Gwaith Llaw, Garddwriaeth, Gorffennaf 21 - 24.

Dymunwyd pen-blwydd hapus arbennig i Ann Ifans ar Ionawr 20fed. Y mae Margaret Parry a Mair Huws, cynrychiolwyr y Pwyllgor Anabl, yn awyddus i gasglu sebonau ayyb ynghyd â thyweli a dillad gwely. Bydd bocsys i'w dal ar gael yn y cyfarfod nesaf.

Gŵr gwadd y noson oedd Maldwyn Thomas, wyneb cyfarwydd i bawb ac yn arbenigwr ar Hanes Cymru. Testun ei sgwrs oedd 'Yn y Cartref Cymreig'. Y cartref cyntaf oedd cartref y 'Ferch o'r Sgêr', clamp o dŷ unig ger Porthcawl. Yno roedd Elizabeth Williams yn byw - un a gafodd

ei chloi gan ei thad yn y llofft dyrog am ganlyn Thomas Ifan, baledwr a saer coed. Gorfuddi briodi dyn cyfoethog ond byddai Elizabeth yn sleifio allan ar Noson Ffair i chwilio am ei gwir gariad, Thomas Ifan. Bu farw o dorcalon cyn cyrraedd ei deg ar hugain. Roedd Maldwyn Thomas flys ymweld â'r Sgêr gan obeithio cyfarfod ag ysbryd Elizabeth. Roedd y modd yr oedd yn disgrifio ei antur yn ein cadw ar flaenau ein traed. Dychmygem glywed cri'r gwyllnod - yn union fel cri oedolyn, clywed cnul y clychau a'r tonnau yn torri ar y traethau. Wedi agor y drws - cyrraedd neuadd enfawr, canfod drws arall yn gilagored, ei agor a cherdded i fyny'r grisiau gwichlyd nes cyrraedd drws cloedig. Clywed tipian y cloc, llwyddo i agor y drws a mentro i ystafell betryal, 'run siâp ac arch - gweld y gwely, clywed sŵn crio hunllefus a llais merch yn galw. Gellid clywed pin yn disgyn yn y Sefydliad Coffa - ac yna gwelsom y wên heintus ar wyneb y Cyfarwydd.

Betws Fawr, Llanystumdwy, oedd y Cartref Cymreig nesaf - cartref y bardd penigamp,

21 Rhosrug. **Dymuniadau Da** Dymunwn wellhad buan i Mrs Naomi Griffiths, 11 Hafan Elan. Cafodd ddamwain a thorri ei

Robert ap Gwilym Ddu. Priododd pan oedd tua 50 oed a chafodd un ferch, Jane Elizabeth, ond bu hi farw yn 17 oed o'r diciâu yn 1834. Mae marwnad ei thad iddi yn adnabyddus.

Cafwyd ein hudo wedyn i'r Cartref Cymreig moethus yn 'Cysgod y Cryman', plasty Lleifior, cartref Harri Fôn - cartref â steil iddo ac fe'n hatgoffwyd o berthynas Harri ac Elizabeth Puw, Trawscoed. Wedi hanes tair Elizabeth o wahanol ganrifoedd cawsom gipolwg ar Gwen Tomos, merch Wernddu, Yr Wyddgrug, a'i pherthynas â John Phillips, Treffynnon - Prifathro cyntaf y Coleg Normal, Bangor.

Diolchwyd i Maldwyn Thomas gan Margaret Parry am noson hynod ddifyr - fel noson o wyllo pedair ffilm fechan.

Enillydd y raffl oedd Margaret Jones a diolchwyd i Enid, Wendy ac Eirianwen am ofalu am y baned. Ar Chwefror 11fed cawn gipolwg ar Amgueddfa Llanberis yng nghwmni Cadi Iolen.

chlun ac yn awr yn aros gyda'i merch, Pauline a David, yng Nghaernarfon. Brysiwch yn ôl, mae pawb yn eich colli yn Hafan Elan!

Plaid Cymru, Enillwyr Clwb Cant: Rhagfyr: 1. Megan Williams; 2. Frank Green. Ionawr: 1. Carrie Owen; 2.

Goronwy Hughes. **Sefydliad Coffa, Enillwyr Clwb Cant:** Rhagfyr: 1. I. Williams, 35 Nant y Glyn; 2. M. Parry, Wenllys; 3. M. Jones,



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.fframia.com

GEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Gwasanaethau mis Chwefror

Chwefror 2: Y Gweinidog, Y Parch. Marcus Wyn Robinson

Chwefror 9: Mr Merfyn Jones

Chwefror 16: Y Gweinidog

Chwefror 23: I'w drefnu.

DODREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft
PRISIAU CYSTADLEUOL
Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

Neuadd Gymuned
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Pwyllgor Rheoli nos Iau, Ionawr 17, yn yr Ystafell Gymuned a chadarnhawyd cofnodion pwyllgorau y flwyddyn 2013. Derbyniwyd copi manwl o'r fantolen ariannol gan y Trysorydd, Glyn Jones.

Dilynwyd gyda phwyllgor i drefnu gweithgareddau pellach i godi arian at y gost o reoli'r Neuadd. Bwriedir cynnal pnawn cymdeithasol yn y Neuadd Gymuned ar y cyd â'r ysgol i ddathlu Dydd Mawrth Ynyd a Dydd Gŵyl Dewi. Bydd cyfle i glywed eitemau gan blant yr Ysgol, darlenniadau gan aelodau'r pwyllgor a chyfle i ganu hen alawon Cymru. Bydd cyfle i gael sgwrs uwchben paned, crempog, teisen gri a bara brith ar Fawrth 4ydd am 2.00 o'r gloch.

Bu Hwyl y Pasg yn hynod lwyddiannus yn 2013 ac felly gobeithir trefnu noson debyg ar Ebrill 9fed eleni.

Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr oedd Mr Huw Davies, Tyddyn, Hendre a Mrs Elinor Williams, Bryn Rhydd.

Atgoffir yr aelodau bod angen talu'r aelodaeth ar gyfer 2014 am £6 y flwyddyn, 50c y mis, neu drwy Archeb Banc. Mae talu gyda siec neu arian yn gwbl dderbyniol ond mae ffurflen Archeb Banc ar gael os yw'r

dull hwnnw o dalu yn fwy hwylus i chi. Diolchir i chi i gyd am gefnogi'r Clwb Cant yn 2013 ac mae croeso i aelodau newydd ymuno.

Eisteddfod Bentref 2014
Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar nos Wener, Gorffennaf 11, yn y **Neuadd Gymuned**.

Ysgol Sul Bosra Dymunir diolch i Fiona am drefnu'r Trip i weld Siôn Corn yn Llanberis adeg y Nadolig. Roedd pawb wedi mwynhau a'r plant yn ddiolchgar iawn am yr anrhegion ac am gael sgwrs ddifyr a chael tynnu llun hefo'r Siôn Corn annwyl.

Dymuna Anti Ann ddiolch i Mr Jones, Anti Liz, y plant a'u rhieni am y fath gareidgrwydd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Mae'n bleser bob amser bod yng nghwmni'r plant a diolch i Mr Jones, Anti Liz a'r rhieni am eich gwerthfawrogiad - bu'n fore Sul hapus dros ben ac yn un nad anghofir yn fuan.

Diolch Dymuna Ann ddiolch i Dafydd a'r teulu, perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y cardiau niferus a'r holl anrhegion hyfryd gan sicrhau pen-blwydd i'w drysori.

Diolch Dymuna Mrs Annie Daniel Hughes, gynt o Cae Hywel ac o 11 Llys y Gwynt, ddiolchi'wtheulu, ffrindiau, cyn gymdogion, preswylwyr a staff Cartref Nyrsio Penisarwaun am eu caredigrwydd tuag ati

ar achlysur ei phen-blwydd yn nawdeg yn ddiweddar. Hefyd, carai ddiolch iddynt am eu caredigrwydd dros y Nadolig.

Trosgrwyddo £407 i Dŷ Gobaith Dyna a wnaeth Linda, Neuadd Glasgoed, Penisarwaun, dridiau cyn Nadolig y flwyddyn 2013, a hynny ar ran D.N. Roberts, ei thad, Martin ei brawd, a'r teuluoedd oll i gyd. Bu farw Mair Roberts, yn wreiddiol o Garneddi, Bethesda, ar y dydd olaf o fis Awst 2013. Yn ei chynhebrwng ym Mhenisarwaun casglwyd arian er cof amdani. Ei dymuniad ydoedd gweld yr arian yn cael ei ddefnyddio er budd Tŷ Gobaith a lles y plant a'r bobl ieuanc a'r staff goruchwyllo a geir yn y canolfannau. Y mae'r teulu am ddiolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd arian, ac yn arbennig i Dylan Griffith, Trefnydd Angladdau, am ei gyfarwyddiadau caredig a'i ofal tyner.

Ysgol Gymuned Penisarwaun
Mae pawb wedi setlo 'nol yn yr Ysgol ar gyfer y Tymor newydd. Rydym yn falch o groesawu Zoe Fraser Williams fel Cymhorthydd yn yr Ysgol. Anfonwn ein cofion at Miss Rachel, Cymhorthydd y dosbarth Meithrin, sydd wedi torri ei braich yn ddiweddar.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun
Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Rhagfyr oedd Mr Richard Jones, Heather Bank gyda Rhif 49, Llongyfarchiadau. Diolch i bawb am gefnogi'r bel bonws yn ystod 2013. Byddwn yn parhau eto eleni ac mae rhywfaint o rifau sbâr os oes unrhyw un yn awyddus i ymuno. Pob lwc i bawb!

Dymuniadau gorau i Ann Ifans ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar Ionawr 20fed. Pob bendith i chwi yn y dyfodol.

Gwellhad - Rydym yn falch o ddeall bod Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, yn gwella ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty cyn y Nadolig.

Dymunwn wellhad i Ceirion Williams, 23 Bryn Tirion, sydd wedi gorfod treulio cyfnod arall yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion at unrhyw un arall yn y pentref sydd ddim wedi bod yn teimlo'n dda yn ddiweddar.

Cylch Ti a Fi - Mae'r Cylch wedi ail gychwyn ers Ionawr 16eg a chynhelir sesiwn wythnosol ar bnawn dydd Iau o 1:30 tan 3.00 o'r gloch yn Neuadd Gymuned yr Ysgol. Mae croeso cynnes i unrhyw un droi i mewn gyda'r plantos, mae pawb yn cael hwyl yn cyd chwarae a chanu ac o dro i dro byddwn yn cynnal sesiynau crefft.

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiâu ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

CHIROPODYDD
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
GALWADAU I'R CARTREF
Cynylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD

Blodau Racca
PENISARWAUN
Rhodd o'r galon
Yw Blodau
AR GYFER
PRIODASAU
a phob
ACHLYSUR
Alwyn a Sarah
(01286) 870605



RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER
POB
ACHLYSUR
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

DEWCS MAE O'N FLASUS

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Crynodeb o gyfarfod y Cyngor ar y 7ed o Ionawr

Ysgolion. Cyfeiriwyd at ganlyniadau llwyddiannus yr archwiliad yn ysgol Penisa'rwaun a Gwaun Gynfi a phenderfynwyd anfon gair i'w llongyfarch.

Materion o'r cofnodion

Carthffosiaeth Brynrefail. Ateb Cyngor Gwynedd, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd llygredd i'w weld yn ystod eu hymweliad. Penderfynwyd cael llun neu dystiolaeth bendant os y gollyngir llygredd yn y dyfodol a'i gyhoeddi yn Eco'r Wyddfa. Deallir bod y Gymdeithas Pysgotwyr hefyd yn delio â'r mater.

Blwch postio Tan Gaer. Ateb y Post Brenhinol nad oes bwriad ei ail-osod am nad oes lle addas yno – pwyso arnynt eto gan bod modd ei osod yn yr un lleoliad ar bolyn metel.

Baw cŵn. Ateb Gwynedd bod gosod bin ger y Caban, Brynrefail, ar eu rhaglen waith.

Cyfrannu at achosion arbennig. Derbyniwyd ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth Dim Ymatebwyr Cyntaf a Llyfrau Llafar Cymru. Polisi'r Cyngor yw ystyried ceisiadau (heblaw am bartion i'r Eisteddfodau Cenedlaethol a Lleisiau Llanbabo) yn flynyddol ym mis Hydref, buasai rhaid newid y Polisi i fodloni'r ceisiadau yma. Trafodwyd hyn yn helaeth a phenderfynwyd peidio newid y drefn bresennol.

Gohebiaethau a materion eraill

Materion Ffyrdd. Cyfeiriodd Phyllis Ellis at yr amryw geisiadau i Wynedd am arwydd "Dim Cerbydau Mawrion" ger Tan Gaer. Mae arwydd felly wedi ymddangos yn ddiweddar ar ben ffordd Craig Dinas rhyw 300 llath i ffwrdd, mae'n amlwg mai ffordd gwasanaeth gul yw hon, dipyn gwahanol i'r lôn i fyny o Dan Gaer. Cyflwynodd hefyd dystiolaeth bod Alun Ffred Jones AC yn pwyso ar wella'r gwasanaeth Sat/Nav yn y Cynulliad a Hywel Williams AS yr un modd yn Llundain. Cae chwarae Brynrefail – llifogydd, mae angen glanhau cwlfer o dan y ffordd. Dywedodd Phyllis Ellis ar ran Aled Green bod mynedfa newydd i gae ger Beran – ni fu cais cynllunio, hefyd bod rhywun yn byw mewn lori yn Ynys Llecharian – llythyr i Wynedd

Llochesau bws, Dinorwig. Dywedodd Elfed Williams bod angen eu paentio ac atgyweirio meinciau. Addawodd y Clerc ofyn am brisiau.

Biniau baw cŵn. Dywedodd Rhian Evans bod biniau Rhiwlas wedi eu malu – un ger capel Peniel a'r llall ger Tai Ysgoldy

Baw cŵn. Derbyniwyd addewid Gwynedd y bydd y warden yn ymweld â Rhiwlas yn aml. Cyfeiriwyd at y llygredd yma mewn sawl man yn y gymuned ac yn benodol gan Rachel Williams – o'r pentref at Rhydfadog, Deiniolen. Pwysleisiodd Idris Thomas mai'r ateb fuasai addysgu plant ac ieuencid yn yr ysgolion a'r clybiau ieuencid am y llygredd – hysbysu'r Adran yng Ngwynedd.

Penisa'rwaun. Ceir yn parhau i barcio ar y ffordd at y cae chwarae – cwyn eto i Wynedd.

Weirglodd Las. Cyfeiriwyd at fynedfa ddwbl yma, ni fu cais cynllunio.

Cynllunio

Darllenwyd adroddiad Elfed Williams ar gyfer "Seminar Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd" a gynhelir ar 31ain o Ionawr 2014. Addawodd y Clerc hefyd gyflwyno sylwadau'r Cyngor yn seiliedig ar yr amryw gwynion a gyflwynwyd yn ddiweddar, gan bwysleisio'r ffaith nad yw'r Swyddogion Cynllunio yn gwrandao ar y cyhoedd nac ar y trethdalwyr. Dywedodd Idris Thomas bod angen polisi cydnaws a dymuniadau trigolion yr ardal.

Blaen y Waen, Deiniolen – cais i newid defnydd gweithdy yn uned wyliau. Gwrthwynebwyd cais ôl-weithredol blaenorol i newid tŷ gwair yn weithdy yma ym Medi 2009 am ddau reswm:

- Oherwydd bod Cyngor Caernarfon wedi gwrthod teulu lleol i addasu'r adeilad yn annedd gan bod bwthyn Blaen y Waun yn ofnadwy o llai,

- am fod y gweithdy wedi ei ffurfio cyn ceisio am ganiatâd.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am y rhesymau uchod ac y buasai caniatáu hwn yn gosod cynsail i droi unrhyw adeilad allanol yn uned gwyliau.

Ceisiadau eraill a dderbyniwyd:

Buarth newydd, Fachwen – codi estyniad un llawr.

2. Cefn Coed, Penisa'rwaun – codi porch ar flaen yr eiddo ynghyd â modurdy sengl.

Dyddiad y cyfarfod nesaf :- 4ydd o Chwefror 2014.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar y 17eg o Ragfyr 2013.

- Derbyniwyd nifer fawr o sylwadau cadarnhaol am y goeden Nadolig.
- Adroddwyd fod cyfarfod wedi'i gynnal ym Mangor yn ddiweddar i drafod newidiadau i'r Cynllun Datblygu a bod angen ymateb ffurfiol gan y Cyngor i safleoedd newydd i adeiladu tai sydd wedi'i hawgrymu. Roedd sawl darn o dir yn cael ei gynnig ym mhentref Llanrug. Penderfynwyd trefnu cyfarfod cyhoeddus yn y flwyddyn newydd gan obeithio y gellir cael swyddog o'r Adran Cynllunio yn mynychu a gofyn pe byddai modd cael mwy o amser cyn rhoi ymateb gan fod yr amseriad yn gwbl afresymol.

- Dywedwyd bod llawer o ordyfiant a baw ci ar y llwybr sydd yn cysylltu Bro Rhyddallt a Tal y Bont. Penderfynwyd pasio'r gŵyn ymlaen i'r Swyddog Llwybrau.

- 'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol.

- Bloc addysgu unllawr newydd – Ysgol Brynrefail, Llanrug.

- Estyniad deulawr – cynllun diwygiedig - Ceris, Lon Groes, Llanrug.

- Dymchwel yr estyniad presennol a chodi estyniad newydd i'r eiddo Fferm Garth, Waunfawr.

- Penderfynwyd gwrthwynebu – ac i ddod i'r un penderfyniad pe byddai cais o'r fath yn dod yn y dyfodol.

- Rhyddhau cytundeb cyfreithiol 106 sy'n cyfyngu'r eiddo i uned fforddiadwy ar gyfer angen lleol cyffredinol – 2 Swn yr Efail, Llanrug.

- Penderfynwyd rhoddi grant o £700 i Glwb Peldroed Llanrug Unedig ac i Eco'r Wyddfa a gohirio'r penderfyniad ar grant i Urdd Gobaith Cymru tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- Dywedwyd fod cŵyn wedi'i dderbyn am bridd wedi ei daflu dros fedd pan yn agor bedd newydd cyfagos. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Ymgymerydd i rybuddio'r rhai sydd yn agor y beddi i fod yn fwy gofalus yn y dyfodol.

- Penderfynwyd parhau gyda mynychu cyfarfodydd y Cyngor ar y trydydd nôs Fawrth o'r mis tan y cyfarfod blynyddol ble y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach a'r Rheolau Sefydlog yn cael ei newid os oes rhaid.

GLANHAWR SIMDDE

Glanhau Simdde Tân Agored
ac hefyd
Stôf goed a "Multi Fuel"
Aga/Rayburn- Olew/Nwy
Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD

H. E. HUGHES

A'i Feibion

Bwthyn Gadlys Llanberis



**GWERTHWR
GLO ac
OLEW GWRES
CANOLOG**

(01286) 870444

Un funud fach ... Cân yr Oscars

Mae o leiaf ddau reswm pam na ddylwn i fentro trafod hyn. Y cyntaf yw bod trefn enwebiadau gwobrwyon yr 'Oscars' yn ddieithr i mi; a'r ail yw diffyg unrhyw gymhwyster cerddorol. Ond mentro wna fi er hynny.

Un o'r caneuon a enwebwyd yr wythnos ddiwethaf i gategori'r 'Gân Wreiddiol Orau' yn Seremoni'r Oscars a gynhelir ddechrau mis Mawrth oedd 'Alone Yet Not Alone'. Daw'r gân o'r ffilm o'r un enw. Ac a dweud y lleiaf, doedd pawb ddim wedi eu plesio. Mewn gwirionedd, cafodd yr enwebiad arbennig hwn ei feirniadu'n o hallt. Roedd rhai o'r farn mai cysylltiadau personol Bruce Broughton, un o gyfansoddwyr y gân, ag amryw o'r bobl a oedd yn enwebu'r caneuon oedd yn gyfrifol am ei gosod ar y rhestr. Roedd eraill yn synnu bod cân a genir mewn ffilm nad oedd y rhan fwyaf o bobl wedi clywed amdani wedi ei henwebu.

Ffilm sydd wedi ei seilio ar stori wir un teulu Cristnogol ym Mhensylfania yn y ddeunawfed ganrif yw Alone Yet Not Alone. Mae'n sôn am y ffordd y bu i'w ffydd yn Nuw gynnal dwy chwaer a gafodd eu cipio a'u dal yn gaeth. A beth bynnag am werth celfyddydol y ffilm, mae'r ffaith fod iddi neges Gristnogol yn amlwg yn ddigon o reswm yn nhyb llawer i fod yn gwbl ddibris o'r gân hon.

Does neb yn disgwyl i'r gân ddod i'r brig yn yr Oscars. Ac yn sicr, 'dyw Joni Eareckson Tada, sy'n canu'r gân, ddim yn disgwyl ennill. Bydd amryw ohonoch yn cofio bod Joni Eareckson wedi cael ei pharlysu mewn damwain car yn ddeunaw mlwydd oed, yn 1967. Ers hynny, daeth yn awdur ac efenglydd amlwg, a bu ei thystiolaeth i'w ffydd ac i gariad Duw yn ysbrydiaeth i filoedd ar filoedd o bobl a'i clywodd yn siarad neu a ddarllenodd ei llyfrau. Mae hi'n dweud bod yr enwebiad lawn cymaint o sioc iddi hi ag i bawb arall. Ond yn naturiol, mae'n ddiolchgar am y sylw a gaiff y gân a'i neges dros yr wythnosau nesaf.

Yn ôl pob sôn, nid dyma'r ffilm orau a wnaed erioed. Ond beth bynnag yw gwendidau'r ffilm, fe glywir y gân gan filoedd lawer o hyn hyd ddechrau Mawrth. Gweddiwn felly na fydd i unrhyw ddiffygion yn y ffilm atal pobl rhag clywed neges obeithiol geiriau'r gân am Dduw'r Achubedd sy'n ein cofleidio â'n harwain ac yn sicrhau nad ydym, er yn unig ar brydiau, byth ar ein pen ein hunain. Boed i'r Ysbryd Glân ddefnyddio'r gân i ddwyn cysur a gobaith y Ffydd i lawer.

'Byth ni'm plygir i mewn braw,
Ef yw'r lloches sydd gerllaw;
yn ei nerth y'm nerthir i,
trwy ei ras fe roes i mi
darian ffydd yn gysgod gwir;
a'i holl gariad wnaed mor glir.'

JOHN PRITCHARD



GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996



TM JONES

SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD



SYMUD A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Belter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

Clwb Camera Caernarfon

Mae nifer o drigolion bro'r "Eco" yn aelodau o Glwb Camera Caernarfon, a bu rhai ohonynt yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Clwb fis Tachwedd diwethaf. Bydd y gystadleuaeth nesaf yn cael ei chynnal ym mis Mawrth.

Canlyniadau cystadleuaeth mis Tachwedd - "Pobol"

Beirniad: Terry Mills.

(CU / U - Wedi derbyn canmoliaeth uchel / canmoliaeth)

Lluniau wedi eu printio:

Grŵp Canolig

1 Iwan Roberts, Llanrug - Pride And Joy 2 Brian Williams, Llandadwrn - Bay City Older 3 Theresa Salmon-Dilworth, Porthaethwy - Light Weaver C Iwan Roberts, Llanrug - The Dance C Theresa Salmon-Dilworth, Porthaethwy - Tying The Knot

Grŵp Uwch

1 Ronnie Williams, Llanfairpwll - Hard 2 Geraint Thomas, Bala - Topsy 3 Geraint Thomas, Bala - Waiting Room CU Sian Davies, Bethel - Fire In The Wind CU Andy Teasdale, Dinorwig - High Flyer CU Geraint Thomas, Bala - Pete Lanmôr C Richard Jones, Caernarfon - The Secret Path C Don Langford, Abersoch - Master And Pupil C Richard Jones, Caernarfon - Parisian Lovers C Arwel Roberts, Bethel - Smiler

Lluniau Digidol:

Grŵp Cyffredinol

1 Nicola Bee-Jones, Penygroes - Image #2 2 Kai Alcock, Waunfawr - The Sailor 3 Brenda Jones, Llanwnda - A Joke Between Friends C Pauline Jones, Caernarfon - Memphis Belle

Grŵp Canolig

1 Gwynant Pierce, Llanrug - Why Am I Doing This 2 Brinley Williams, Caernarfon - Brixham Banjo 3 Val Comerford, Bontnewydd - Who's A Pretty Boy CU Iwan Roberts, Llanrug - Encore CU Gwynndaf Hughes, Llanrug - I Mi-For Me C Gwynndaf Hughes, Llanrug - Gorffennais-I Finished C Val Comerford, Bontnewydd - Skipping Back In Time

Grŵp Uwch

1 Gareth Jones, Caernarfon - Blondie 2 Paul Sivyver, Llanberis - Lad On Line 3 Ceri Williams, Caernarfon - Hey Man Thought This Was Happy Hour CU Arwel Roberts, Bethel - Gossip At The Tate CU Andy Teasdale, Dinorwig - In The Frame CU Ken Latham, Waunfawr - Walking Home C Arwel Roberts, Bethel - Mum I Want To Be A Model C Sian Davies, Bethel - Red Shoes Mae'r lluniau i weld ar wefan y Clwb:

www.caernarfoncameraclub.co.uk




BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC

Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772
Symudol- 07840 794269



YSGOL YRRU ELIDIR
Driving School

Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

07922121226
NEU
(01286) 882269

GWERS GYNTAF
2 AWR AM BRIS 1



GWYNANT PIERCE

CYNYRCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU
CYSTADLEUOL

Uned 1
Fferm Bryn Afon
LLANRUG

(01286) 674183
07889899901



Dr. Robin Parry yn cyflwyno Tarian Garmon i Tomos Morgan, Waunfawr.

Wel dyma ni ar ddechrau blwyddyn arall, tydi pethau'n dawel yn dilyn yr holl fwrlwm o ddathlu'r Nadolig a'r flwyddyn newydd. Mae'n amser pan mae pawb yn closio at ei gilydd neu i'w gweld yn agosach at ei gilydd rhywsut, ond dyna yw neges gŵyl y geni. Cofiwch gario 'mlaen â'r ewyllys da a dangos yr un brwdfrydedd at rai sydd yn unig drwy'r flwyddyn. Does dim byd yn codi calon cystal na rhywun yn agor y drws am rhyw sgwrs bach yn awr ac yn y man.


Mae bod y un o'r gymuned bysgota yn y fro 'ma yn sicrhau eich bod gyda digon o gwmpeini a rhai i sgwrsio â hwy, er fod y cyfathrebu yn arwain at un testun yn unig sef, 'sgota. Ond os mai dyna eich diddordeb, wel does dim posib cael digon o drafod a'r erwau'r pysg, ac mae digonedd y hyn i gael yn y Cwt yn Crawia, wel mwy na digon ar adegau, ond mae eistedd o flaen y tân yn werth chweil.

Ar 12ed Rhagfyr 2013 fe gynhaliwyd pwyllgor blynyddol y gymdeithas yng Nghaernarfon. Cafwyd golwg ar adroddiad o'n gwaith am y flwyddyn gan ein Cadeirydd, Dr Robin Parry, yn rhifyn y Nadolig o'r Eco. Mae llawer wedi canmol ei waith, a hefyd yn mynegi syndod at y gwaith, a'i gymhlethdod, sy'n gorfod cael ei wneud i gadw'r dyfroedd yn nwylo lleol.


'Roedd yn bleserus dros ben gweld nifer dda o aelodau'n bresennol yn enwedig y to ifanc, rhain yw ein dyfodol, a da yw gweld eu brwdfrydedd at y gwaith mewn llaw. Codwyd John Hope Hughes, Caernarfon, a Siôn Parry, Seion, fel aelodau o'r pwyllgor gwaith. Yn ogystal cyflwynwyd Tarian Garmon (cyflwynedig gan y diweddar Oscar Evans) am y sewin trymaf i aelod dan 18 oed i Tomos Morgan Waunfawr. Sewin 3.5 pwys o'r Afon Gwyrfa

Aeth y tlysau eraill fel a ganlyn:

Tlws Tomi Lovell - Eifion Pritchard, Caernarfon, aelod oedd, yng ngolwg y pwyllgor gwaith, wedi cyfrannu yn helaeth i waith y gymdeithas yn ystod 2013.



Dr Robin Parry yn croesawu Siôn Parry, Seion, a John Hope Hughes, Caernarfon, ar gael eu codi'n aelodau o'r pwyllgor gwaith



Ar ben arall i'r lein

Tarian W.J. Williams - eog trymaf 2013 - Eifion Pritchard, Caernarfon, 'sgodyn 10.5 pwys o Lyn Engan ar y Seiont.

Tarian J.V. Evans - sewin trymaf 2013. Wyn Parry, Caernarfon. sewin 4.5 pwys o'r Seiont ger Pontrug.

Cyfarfod arall y gwelwyd 'sgotwyr o bob rhan o'r gogledd yn casglu at ei gilydd oedd ar nos Fercher, 8fed Ionawr ym Mhlas Menai i glywed canlyniadau Prosiect Sewin Celtaidd. Mae'r prosiect wedi bod yn mynd ymlaen dan nawdd ffynhonnell ariannol Ewrop i gasglu gwybodaeth ar sut mae sewin afonydd Cymru, De a Dwyrain Iwerddon, Gogledd Orllewin Lloegr a Solway, sef ffin yr Alban yn symud ac yn bwydo o amgylch Môr yr Iwerydd. Difyr oedd clywed fod sewin lleol wedi cael ei rhwydo cyn belled ag arfordir Iwerddon a'r Alban. Partneriaid yn y gwaith oedd Prifysgolion Bangor a Cork, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Iwerddon a Cronfa ERDF sef Ewrop a Llywodraeth Cymru.

Dyna i chi waith diddorol, ac os bydd y gymdeithas yn gallu rhoi perswâd ar gyrff fel Dŵr Cymru, Cwmni 1st Hydro a phawb arall sydd â diddordeb ym mhroblemau Llyn Padarn a'r Seiont i ysgwyddo'r baich o gefnogi'r gwaith adnewyddu, yna bydd cyfleon ar gael - a pwy a wŷr be ddaw ein ffordd wedyn.

Tra fod Llyn Padarn ar y bwrdd, y newyddion diweddaraf yw ein bod yn disgwyl penderfyniad yr Uchel Lys ar ein cais am adolygiad barnwrol gan, yn ôl pob golwg, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru am wrthwynebu'n cais. Tipyn o symudiad ar eu rhan, ond cawn weld be a ddaw gan fod cyfreithwyr y corff yma yn gallu troi fel cwpan mewn dŵr. Mater sy'n cynhyrfu'r dyfroedd yw bwriad Llywodraeth Cymru i ymestyn hawl i grwydro dros holl diroedd, afonydd a llynnoedd y wlad. Mae gwrthwynebiadau chwyrn ond mae yn debygol mai'r diwedd fydd pleidlais ar hyn yn siambr y cynulliad. Cawn weld be fydd safbwynt Aelodau'r Cynulliad ar hyn i gyd. Mae aelodau presennol, a hefyd ddarpar ymgeiswyr led led Cymru, i'w gweld yn eithriadol o dawel ar y mater, ond fel popeth arall - amser a ddengys

Daeth enghraifft o be i'w ddisgwyl os bydd pawb yn cael mynd fel ag y mynno sef, wythnos cyn y Nadolig ar dywydd garw o wynt a glaw gyda'r Seiont dros ei glannau daeth aelodau ar draws tair canŵ, helmedau a nifer o gelfi eraill ar y lan Llyn tywod, Crawia. Cysylltwyd â'r heddlu rhag fod rhywun mewn trafferthion a cherddwyd y glannau gan ein aelodau. Yn ffodus nid oedd neb i'w weld. Y diwrnod canlynol cadarnhawyd mai myfyrwyr o Brifysgol Bangor oedd wedi gadael y ceufadau ac wedi dychwelyd gartref oherwydd ei bod yn rhy stormus i gario 'mlaen. Cefais air ag un o'r criw, a doedd ei agwedd ddim yn safbwynt y buaswn wedi ddisgwyl glywed gan fyfyrwr yn gysylltiedig â sefydliad sy'n uchel ei barch yn y fro. Mae'r sgwrs yma wedi fy ngwneud yn ymwybodol o'r difaterwch a'r amharchusrwydd rhai o aelodau'r brifysgol tuag at ein heiddo a'n dymuniadau fel perchenogion lleol. Mae mwy ar hyn ar safle we'r gymdeithas sef www.sgll.co.uk Cofiwch ailymaelodi eleni i dderbyn y disgownt. Rhaid cael eich taliad erbyn 1at Mawrth, neu mi fydd twll yn y boced!

Felly hwyl am y tro

Huw Price Hughes



Dr Robin Parry yn cyflwyno tarian W.J. Williams i Eifion Pritchard, Caernarfon.

Bryn Fôn – Noson Acwstig Ar nos Wener, 28ain o Chwefror, fel rhan o ddatliadau Gŵyl Ddewi, cynhelir noson acwstig yng nghwmni Bryn Fôn yn Nhafarn y Snowdonia Park, Waunfawr. Bydd y noson yn cychwyn am 8 o'r gloch. Tocynnau yn £10 ac ar gael ymlaen llaw o'r dafarn (650409) neu trwy gysylltu â Hawys (650198). Trefnir y noson gan Gangen Plaid Cymru Waunfawr a'r Cylch. Croeso cynnes i bawb.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr oedd: £30: Mr Norman Williams, Llidiart Wen; £20: Mrs Gladys Greasley, Minafon; £10: Mr Mike Riewelly, Rhwng Ddwyrdd.

Diolch Er fod y Nadolig wedi mynd heibio mae angen diolch i'r trigolion am yr addurniadau a roes naws yr Ŵyl inni yn y pentref a diolch hefyd i aelodau'r Clwb Ieuenctid am eu cyfarchion, drwy gerdyn, a dderbyniwyd gan deuluoedd y pentref.

Un gyda'r nos bu rhai o'r pentrefwyr o amgylch yn canu Carolau, a chynhaliwyd Gwasanaeth Noswyl y Nadolig yn Eglwys y Waun, wedi ei drefnu gan Mererid Llwyd, Cae Rhos. Roedd casgliad y gweithgareddau yn mynd tuag at Apêl y Philipiniaid. Diolch i'r rhai a gymerodd ran ac i Mererid am ei gwaith yn trefnu.

Casglwyd oddeutu bedwar can punt tuag at yr apêl.

Eisteddfod y Pentref Bydd Eisteddfod Pentref Waunfawr yn cael ei chynnal eleni ar ddydd Sadwrn, 15fed o Chwefror yng nghanolfan y pentref. Cynhelir Eisteddfod ar gyfer y plant yn y prynhawn (cychwyn am 12.30) ac i'r oedolion gyda'r nos (cychwyn am 7.00 o'r gloch). Bydd y testunau ar gael o Ysgol Waunfawr neu cysylltwch ac Olwen ar 650371 neu Iola Llew ar 650035. Croeso cynnes i bawb sy'n byw yn y pentref a'r cyffiniau – dewch i gefnogi!

Dyweddio Dymunwn longyfarch a dymuno'n dda i Catrin Keller, Stad Croes y Waun, ar ei dyweddiad â Ron o Gaernarfon.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da hefyd i Dr Siôn Pritchard, Syrjyri Liverpool House, ar ei ddyweddiad ag Elen Lloyd Roberts o Langefni.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Mair Williams, Fferm Bod Hyfryd, ar gyrraedd ei phedwar ugain mlwydd oed. Fe hoffai Nyrs Mair gymryd y cyfle i ddiolch yn ddiffuant am y cardiau, anrhegion a'r cyfarchion cynnes a dderbyniodd ar ei phen-blwydd. Diolch yn fawr. Dymunwn wellhad buan iddi wedi'r anffawd yn ei chartref a thorri asgwrn yn ei hysgwydd. Brysiwch wella.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da hefyd i Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed. Bu'n mwynhau ei diwrnod yng nghwmni ei theulu a'i ffrindiau.

Priodas Dymunwn briodas hapus i Jasmine, Teras Cefn Du a Luke. Pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd, Pant Waen.

Genedigaeth Dymunwn longyfarch Bleddyn Hedd ac Angharad, Graianfryn, ar enedigaeth eu mab bach, Osian Emlyn. Pob dymuniad da i chi a'r un bach.

Adref o'r Ysbyty Dymunwn wellhad buan i Jack Rowlands, Stad Bro Waun, wedi ei

llawdriniaeth yn yr ysbyty. Hefyd dymunwn wellhad buan i Gerald Rowlands, 1 Ael-y-Bryn, wedi iddo gael ei gymryd i'r ysbyty.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad i Nesta Eluned, Tremallt, wedi ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.

Ddiwrnod cyn y Nadolig fe syrthiodd Heulwen Huws, Argoed, a bu'n hopian o amgylch dros yr Ŵyl, gyda'i migwrn yn brifo mwy a mwy. Gofu hi fynd i'r ysbyty ac yno cafodd y newyddion ei bod wedi torri asgwrn. Dymunwn wellhad buan i ti, Heulwen, ac y byddi o gwmpas heb y baglau yn weddol fuan.

Profedigaethau Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Beudy Bach yn eu profedigaeth o golli mam Norma a nain annwyl i deulu Rhoslwyn.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Tony Brown a theulu 2 Bryn Golau yn eu profedigaeth hwythau o golli mam a nain annwyl iddynt.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Caroline Davies a'r genod, Pen Rhiw, yn eu colled a'u hiraeth am fam a nain annwyl iawn.



Dim ond **£169*** y mis

Yn cynnwys

3

Blwyddyn o **yswiriant**
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i grwyrr dros **21 oed!**



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**



PEUGEOT

MOTION & EMOTION

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251

www.elimpeugeot.co.uk

Ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,586.25, 35 talled misol o £169.00, cost credit a ffordd £1,277.17 APR 6.6%. Contract 6,566 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Talled misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £206.00. U ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol. Ffôn effeithlonwydd swyddogol mewn milltir y galwyr (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4-34.9 (3.6-8.1), Extra Urban 88.2-62.8 (3.2-4.5), Combined 83.0-48.7 (3.4-5.8) a CO2 87-135

Am y tro cyntaf yn y gyfres rwyf yn crwydro tu allan i ffiniau'r fro ond eto at un sydd â'i wreiddiau yn nwn ynddi. Fy ngwestai yw Stan Lyall sydd, erbyn hyn, draw yn Ninbychers sawl blwyddyn. Un o'r Cremllyn, Bethel, oedd Stan cyn i'r teulu symud draw i Lanberis. O'r ysgol gynradd ymlaen i Ysgol Brynrefail a thra'n ddisgybl yno bu'n gapten ar dimau pêl-droed a chriced yr Ysgol. Yr oedd hefyd yn gyfrifol am anfon adroddiadau wythnosol am gemau pêl-droed yr Ysgol i'r Caernarfon and Denbigh. Cymharwn hyn â sefyllfa heddiw a phrinder gemau.

Â'i yrfa Ysgol yn tynnu tua'r terfyn daeth trychineb teulu i'w lorio. Lladdwyd ei dad mewn damwain yn Chwarel Dinorwig. Eto, o'r drychineb agorwyd drws i Stan. Ei fwriad o'r cychwyn oedd bod yn newyddiadurwr. Daeth Brian Griffiths o'r C. & D. draw i'r tŷ i wneud adroddiad ar yr angladd. Soniodd rhywun wrtho am fwriad Stan ac awgrymodd Brian iddo ymholi. Y canlyniad oedd i Stan gael gwaith gyda'r papur ac yno bu am y pedair blynedd nesaf. Mireiniodd ei grefft. Byddai'n mynychu gemau Caernarfon, Bangor, Nantlle Vale a hynny, cofier, yn oes aur pêl-droed yr ardal yma. Hefyd, wrth gwrs, dadansoddiad wythnosol am ei

gariad cyntaf sef y Caernarfon and District oedd, yn y 60a'u, ymysg cyngbreiriau cryfaf y gogledd. Rhaffodd i mi enwau timau Llanberis, Llechid a Mountain Rangers gyda'r asgellwyr Dafydd Pierce, Gwilym Williams a Brian Corbri yn cael tipyn o sylw. Yn ddiddorol, roedd erthyglau pêl-droed Stan am gemau'r gogledd yn cael eu cynnwys yn rheolaidd yn y News of the World a'r Sunday Express. Dim ond ffonio, a byddai'r adroddiadau yno y bore canlynol. Ni all y Daily Post heddiw gynnwys adroddiadau bore wedyn am gemau lleol os ydynt wedi gorffen wedi 9pm. Rhyfedd felly bod adroddiadau Lerpwl, Everton, Man U. a

Wrecsam yno, gartref neu dramor!

Roedd yn uchel ei barch o dimau'r Coleg Normal ddiwedd y 60a'u hefyd. Rhyw dair blynedd yn ôl cawsom aduniad 40 mlynedd ers i dim llwyddiannus '69-70 adael y Coleg. Euthum draw i'r Archifdy ac ar noson y dathlu rhoddais gopi i bawb o adroddiadau Stan am bob wythnos o'r tymor hwnnw. Sôn am gofio gemau, goliau, chwaraewyr...

Yn 1971 aeth Stan i'r Coleg Normal ac o 1975 hyd 2008 bu'n athro'r Gymraeg yn Ysgol Glan Clwyd. Blynnyddoedd hapus meddai. Drwy'r amser roedd yr inc yn dal i lifo a byddai'n cyfrannu sawl erthygl - nid yn unig ar chwaraeon - i'r papur bro lleol Y Bigwrn a'r papur rhanbarthol y Denbigh Free Press.

Mae'n flaenor yn Y Capel Mawr, Dinbych, ac yn Ysgrifennydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd. Rwyf wedi derbyn croeso ganddo ar yr aelwyd ac yn y capel ac mae criced yn britho'r



sgwrs bob tro. Mae'n siŵr mai dadansoddiad o smonach Cyfres y Llundw fydd yn cael sylw gennym y tro nesaf i ni gwrdd. A sôn am griced, mae mab Stan, Gerallt, yn gricedwr dawnus - batiwr agoriadol a bowliwr lled-gyflym llaw chwith i dimau Dinbych, Sir Ddinbych a Gogledd Cymru. Mae Gerallt hefyd â'i fryd ar ddysgu.

Diolch i Stan am y sgwrs. Yn sicr, dyma un a chwaraeodd ran bwysig ym mywyd pêl-droed yr ardal yma yn oes aur y 60a'u. Cyfnod mae'n ei gofio â gwên a balchder.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Cymru Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: 01286 678310
(ar agor 09.00 - 17.00)

Neu ffoniwch
0800 085 3741
neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE
Concern

ageUK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Tavis House, 1-6 Tavistock Square, London WC1H 9NA.
ID200457 03/12 MP2429V2MAR12_SL106823_13




Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Noson I'w Thrysori



Pleserus o hyd yw gwrandao ar gyfathrebwr rhwydd. Pan mae'r person hwnnw yn parchu ei faes, a chyda stori wirioneddol i'w dweud, yna try'n brofiad i'w drysori.

Dyna'n sicr oedd ymateb y gwrandawyr niferus a ddaeth draw i Galeri ar gyfer noson gyda Nigel Owens, y dyfarnwr rygbi rhyngwladol – ym marn nifer, y gorau yn ei faes.

Ond nid noson rygbi yn unig oedd hon. Un wedi cyrraedd y

pinacl oedd yn llefaru, ond roedd sawl profiad i'w wynebu ar y llethrau tua'r copa.

Gyda Nic Parri yn cynnal yr ymddiddan gyda chwestiynau treiddgar, sensitif ac addas cawsom daith o bentref bach Mynydd y Cerrig yng Nghwm Gwendraeth i rai o stadia rygbi mwya'r byd. Trwy'r amser roedd y filltir sgwâr yn sylfaen i weledigaeth a phwrpas taith bywyd Nigel. Mae'n Gymro i'r carn a chymuned ac yn dal i drysori ffrindiau bore oes. Yn yr un modd mae parchu'r gêm yr un mor bwysig. Cynorthwyo'r chwaraewyr yw prif waith y dyfarnwr nid bod yn 'geiliog dandi'. Nododd ei fod, y penwythnos cynt, wedi dyfarnu Caerlŷr yn erbyn Ulster yng Nghwpan Ewrop ar y Sadwrn a thim dan 12 Pencoed y diwrnod wedyn. Yr un rheolau, yr un ymroddiad.

Dechreuwyd y noson gyda Nic yn dyfynnu o bennod cyntaf llyfr Nigel 'Hanner Amser'.

Yn unigedd y mynydd roedd y storm yn crynhoi. Yn ddirdynol arweiniodd Nigel ni drwy'r cymylau duon a ledodd o'r hunan holiad ynglŷn â'i rywioldeb. Brwydro bulimia a gwynebu'r frwydr dyngedfennol bersonol o ddatgeliad i deulu a ffrindiau.

Yno ar y mynydd uwchlaw cartref a bro ei fagwraeth roedd wedi cymryd gor-ddos o gyffuriau, gyda'r bwriad pendant o hunan laddiad. Yr oedd wedi gadael llythyr i'w rieni. Yn ffodus darganfuwyd Nigel ar y mynydd a'i hedfan i Glangwili, ble bu o fewn dim i farw.

Yna'r datgelu anodd i'w deulu – mor anodd i'w fam – yna ffrindiau agos. Cyfeiriodd at y pwysau a ryddhawyd ac at gefnogaeth amhrisiadwy cyfeillion a dilynwyd y campau.

Ymlaen at y gemau mawr – a bach-yr uchafbwyntiau a'r camgymeriadau. Nodi rôl y pedwerydd swyddog – y TMO – bellach. Cyfeirio at ddau uchafbwynt ei yrfa hyd yn hyn sef gemau De Affrica v Seland Newydd ac Iwerddon v Seland Newydd.

Dyfarnodd rownd derfynol Cwpan Ewrop deirgwaith, ac eleni bydd yn ennill ei 50 cap yn ystod Cystadleuaeth y Chwe Gwlad, sef Ffrainc v Lloegr ym Mharis.

Cwestiwn olaf Nic oedd am obeithion Nigel i ddyfarnu rownd derfynol Cwpan y Byd yn Nhewkenham yn 2015. Dyna fuasai'r pinacl yn ôl Nigel, ond yn anffodus ni allai ragweld hynny gan 'y bydd Cymru yn y ffinau'. Buasai hynny fwy pwysig iddo.

O'r Galeri yn ôl adre yr aeth Nigel, nid i foethusrwydd dinas ond yn ôl i'r filltir sgwâr. Stori 'bachgen bach o'r wlad' gawsom ac am obeithion a wireddwyd. Noson i'w thrysori, yng nghwmni gwir lysgennad y Gymru Gymraeg a'r byd rygbi. Brysied yn ôl.

RHEDEG MYNYDD

Prin fu'r rasys dros y mis diwethaf, ond daeth llwyddiannau lleol. Y brodyr Dewi a Huw Owen (Penygroes a Llanrug) yn dod yn drydydd a phedwerydd yn ras llwybr Caergybi mewn tywydd echrydus.

Mae ymarferion Clwb Rhedwyr Eryri yn Llanberis yn mynd o nerth i nerth, gyda sesiynnau ar nosweithiau Llun a Iau. Mae croeso i unrhyw un droi i fyny: does dim angen bod yn aelod o'r Clwb, a does dim angen bod yn rhedwr na rhedwraig profiadol. Mae'r sesiynnau wedi eu llunio i siwtio gallu pawb. Bydd cyfarfodydd mwy cymdeithasol yn cael eu cynnal ar foreau Sul hefyd, sy'n cynnwys rhediad o rhwng saith a deng milltir, ond i gyd yn ddigon hamddenol i gael sgwrs tra'n rhedeg. Edrychwch ar safle gwe Clwb Rhedwyr Eryri am fwy o wybodaeth.

Yn draddodiadol, Ras Moel-y-ci o Dregarth yw ras fynydd gyntaf y tymor yn Eryri. Mae ras eleni yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, 22ain o Chwefror, gan gychwyn am hanner dydd. Bydd rasys i ieuentid hefyd. Mae'n ras o tua 8 cilomedr gyda bron i 300 metr o ddringo.

COFRESTR LLAWN

Yn ddiamheuol mae Dyffryn Peris erbyn hyn yn arweinydd Ewropeaidd ym myd y campau awyr agored. Eisoes mae'r rhestr wedi cau ar gyfer Marathon Eryri. Yr un yw'r stori ym mhrif gystadleuaeth Triathlon Llanc y Llechen, er bod rhai llefydd ar ôl yn yr is-gystadleuaeth y 'Sprint'. Cofiw'n hefyd am rasys beicio yr Etape a ddenodd nifer lleol i gymryd rhan. Eisoes mae David Brailsford wedi dweud ei fod am ddychwelyd i gystadlu eto eleni. Tipyn o haf o'n blaenau!!

GLAW, GLAW...

Fy mwriad oedd rhoi adroddiad o gêm Llanrug v Rhuthun yn Nhlws Cymru. Rhaid oedd gohirio oherwydd cyflwr Eithin Duon. Gobeithio, erbyn y rhifyn nesaf, y bydd y gêm wedi ei chwarae ac y byddwn ni yn edrych ymlaen i'r rownd nesaf. Gobeithio na fydd y saib ddi-gemau yn amharu ar fomentwm rhyfeddol y tîm.

Cyfeiriais o'r blaen mor anodd fydd cynnal safon Maes Padarn gyda dau dîm yn chwarae arno. Clywaf fod bwriad erbyn hyn i gofrestru Cae'r Ddôl ar gyfer gemau cynghrair. Gyda chyn gymaint o gemau cynghrair mewn llaw bydd hyn yn gaffaeliad i Lanberis. Gemau mis Mai fydd hi eto eleni mae gen i ofn.